Llywodraeth Cymru
Welsh Government

NOSC 2026 Rhif 54.
Amaethyddiaeth

# Cod Ymarfer i Atal Llysiau'r Gingroen rhag Lledaenu







# Cynnwys

Rhagair Gweinidogol ... 3

Rhagair ... 4

Cwmpas ... 4

Defnydd ... 4

Beth yw llysiau'r gingroen a pham maen nhw'n bwysig? ... 5

Pam y gall llysiau'r gingroen weithiau achosi problemau? ... 5

Y fframwaith cyfreithiol ... 6

Gorfodi ... 7

Asesu'r risg o ledaenu a phenderfynu a oes angen cymryd camau gweithredu ... 8

Ystyriaethau o ran lles ... 9

Rhagor o gyngor ... 10

Atodiad 1: Adnabod Llysiau'r Gingroen a'u Bioleg ... 11

Atodiad 2: Rheoli Glaswelltir ... 16

Atodiad 3: Technegau Rheoli ... 17

Atodiad 4: Ystyriaethau Amgylcheddol a Chategorïau Tir Penodol ... 24

Atodiad 5: Gwaredu ... 27

Atodiad 6: Canllawiau Diogelwch ... 31

Atodiad 7: Cysylltiadau ... 33

Atodiad 8: Cyhoeddiadau Defnyddiol ... 34

Atodiad 9: Ffynonellau Cyngor Technegol ar Reoli Llysiau'r Gingroen ... 35

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG53620, ISBN digidol 978-1-83745-152-4
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and Ffônephone calls in Welsh

# Rhagair Gweinidogol

Mae llysiau'r gingroen yn blanhigyn brodorol ac yn rhan bwysig o'n bioamrywiaeth. Fodd bynnag, gall achosi heriau i reolwyr tir oherwydd, fel llawer o blanhigion, gall ei amddiffynfeydd naturiol beri risgiau i iechyd a lles ceffylau a da byw. Mae'r Cod hwn sydd wedi'i ddiweddaru yn darparu canllawiau ymarferol i helpu i gefnogi rheolwyr tir wrth iddynt benderfynu a ddylid rheoli llysiau'r gingroen, tra hefyd yn ystyried yr ecosystemau rydym ni i gyd yn dibynnu arnynt.

Yr amgylchedd naturiol yw un o asedau mwyaf ein cenedl, ac mae'n sail i'n llesiant, ein hunaniaeth ddiwylliannol, a'n gwydnwch hirdymor. Wrth lunio'r Cod hwn, mae Gweinidogion Cymru yn ailddatgan eu hymrwymiad parhaus i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth Cymru.

Rwy'n ddiolchgar i bawb a ymatebodd i'n hymgynghoriad ynghylch diweddaru'r Cod. Mae'r Cod yn cydnabod cyfraniad hanfodol ffermwyr, coedwigwyr, cyrff cadwraeth a chymunedau lleol wrth reoli tirweddau Cymru, ac mae'n ceisio eu cynorthwyo i fabwysiadu arferion sy'n hyrwyddo canlyniadau cynaliadwy i bobl a natur.





**Huw Irranca-Davies AS,**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

# Rhagair

Nod y ddogfen hon yw rhoi canllawiau ar sut i atal **llysiau'r gingroen** (*Jacobaea vulgaris*, cyfystyr *Senecio jacobaea*) rhag lledaenu lle ceir risg i iechyd a lles ceffylau a da byw. Arwyddocâd llysiau'r gingroen yn y cyd-destun hwn yw presenoldeb alcaloidau pyrrolizidine (APau) a all fod yn wenwynig i wahanol anifeiliaid os byddant yn eu llyncu.

Pennir llysiau'r gingroen yn Neddf Chwyn 1959 a Deddf Rheoli Llysiau'r Gingroen 2003. Nid yw'n anghyfreithlon cael llysiau'r gingroen yn tyfu ar eich tir, ond mae'n bosibl y caiff hysbysiad cyfreithiol ei gyflwyno yn ei gwneud yn ofynnol i feddiannydd weithredu i'w hatal rhag lledaenu. Cynghorir defnyddio dull pwyllog a chyfrifol i reoli llysiau'r gingroen, o fewn cylch gwaith y ddeddfwriaeth gyfredol.

Nid yw'r canllawiau hyn yn ceisio dileu llysiau'r gingroen yn gyfan gwbl, na'u rheoli'n ddiwahân, gan eu bod yn blanhigyn brodorol sy'n cefnogi sawl rhywogaeth bywyd gwyllt yn y DU. Maent yn cynnwys gorfanadl (*Orobanche minor*), nifer mawr o ffyngau, a llawer o wahanol infertebratau fel glöynnod byw, gwyfynod, gwenyn, pryfed hofran a chwilod. Mae rhai o'r rhywogaethau hyn yn anghyffredin neu'n brin. Mae llysiau'r gingroen yn elfen naturiol o sawl math o laswelltir heb ei wella ac maent yn cyfrannu'n sylweddol at fioamrywiaeth y fflora a'r ffawna yn ein hardaloedd cefn gwlad.

Mae'r canllawiau yn annog arferion da a chydweithrediad. Bwriedir iddynt gael eu defnyddio gan berchenogion ceffylau a da byw; perchenogion tir a meddianwyr tir, a rhanddeiliaid eraill sy'n cynrychioli amrywiaeth eang o fuddiannau.

Caiff gwybodaeth ei chynnwys am y canlynol:

- Adnabod llysiau'r gingroen
- Asesu'r risg y bydd y planhigyn yn lledaenu
- Dulliau rheoli – eu haddasrwydd a'u heffeithiolrwydd
- Ystyriaethau o ran lles
- Ystyriaethau amgylcheddol
- Materion iechyd a diogelwch.

# Cwmpas

1. Mae'r Cod Ymarfer hwn i Atal Llysiau'r Gingroen rhag Lledaenu yn gymwys i lysiau'r gingroen (*Jacobaea vulgaris*, cyfystyr *Senecio jacobaea*) o deulu'r creulys. Mae'r cod hwn yn gymwys i Gymru (mae dogfennau ar wahân ar gael yn Lloegr a'r Alban).

2. Mae llysiau'r gingroen yn un o sawl rhywogaeth creulys a phlanhigion sy'n edrych yn debyg sy'n frodorol i Brydain Fawr. Mae adnabod y rhywogaeth yn gywir yn hanfodol er mwyn atal achosion o dynnu planhigion nad oes angen eu targedu drwy gamgymeriad (gweler **Atodiad 1** am fanylion adnabod). O dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, mae'n drosedd i unrhyw berson, nad yw'n berson awdurdodedig (www.legislation.gov.uk/ukpga/1981/69/section/27) dynnu unrhyw blanhigyn gwyllt yn fwriadol o'r gwraidd. Mae hyn yn cynnwys llysiau'r gingroen.

# Defnydd

3. Gellir defnyddio'r Cod hwn i helpu perchenogion tir neu feddianwyr tir i ddiffinio sefyllfaoedd lle mae llysiau'r gingroen yn debygol o ledaenu i dir cyfagos gan beri risg y bydd anifeiliaid agored i niwed yn eu llyncu. Mae'r Cod hwn yn darparu gwybodaeth am yr amrywiol ddulliau rheoli, ac yn amlinellu ystyriaethau o ran lles anifeiliaid ac ystyriaethau amgylcheddol.

# Beth yw llysiau'r gingroen a pham maen nhw'n bwysig?

4. Mae llysiau'r gingroen yn rhywogaeth frodorol yn y DU sy'n bwysig i'n bywyd gwyllt. Dyma'r planhigyn y mae o leiaf 77 o rywogaethau o bryfed sy'n bwyta deiliant yn ei fwyta, a'r rhywogaeth fwyaf adnabyddus o'u plith yw gwyfyn y creulys (*Tyria jacobaeae*). Mae o leiaf 38 o rywogaethau pryfed ac 8 rhywogaeth ffyngau yn dibynnu'n llwyr ar lysiau'r gingroen fel eu hunig ffynhonnell fwyd neu mae ganddynt nifer cyfyngedig o letywyr amgen ac ni allant newid i blanhigion eraill. Mae tua thraean y pryfed hyn yn anghyffredin neu'n brin ac mae'r mwyafrif wedi'u cyfyngu i lysiau'r gingroen neu eu perthynas agos, creulys llwyd (*Jacobaea erucifolia*). Mae rhai rhywogaethau yn defnyddio blodau llysiau'r gingroen fel marcwyr tiriogaeth neu fannau ffafriol i ddod o hyd i ysglyfaeth neu gymheiriaid sy'n mynd heibio. Gall ardaloedd unigol o lysiau'r gingroen fod yn bwysig i ffawna brodorol yn yr ardal ehangach.

5. Mae llysiau'r gingroen yn un o elfennau naturiol sawl math o laswelltir heb ei wella. Yn sgil y dirywiad o ran amrywiaeth planhigion blodeuol, mae'r planhigyn wedi dod yn gynyddol bwysig fel ffynhonnell fwyd i bryfed cyffredinol sy'n bwyta neithdar ar ddiwedd yr haf. Cofnodwyd mwy na 200 o rywogaethau, gan gynnwys glöynnod byw, gwenyn, gwyfynod, pryfed hofran ac infertebratau eraill, yn bwyta neithdar llysiau'r gingroen. Mae sawl rhywogaeth o adar a mamaliaid yn manteisio ar y ffynhonnell bwysig hon o bryfed.

# Pam y gall llysiau'r gingroen weithiau achosi problemau?

6. Mae llysiau'r gingroen yn cynnwys alcaloidau pyrrolizidine (APau) a all fod yn wenwynig i wahanol anifeiliaid os byddant yn eu llyncu. Mae moch, ieir, gwartheg, ceffylau a merlod yn agored i niwed, ac ystyrir bod teulu'r ceffyl yn gyffredinol i gyd yn agored i niwed. Ystyrir bod defaid a geifr yn fwy goddefgar ond nid yw hynny'n golygu nad oes unrhyw risg iddynt. Bydd y rhan fwyaf o'r cyfeiriadau dilynol at geffylau a da byw; mae hyn yn cynnwys teulu'r ceffyl a stoc fferm.

7. Mae tua 3% o blanhigion blodeuol y byd yn cynnwys o leiaf 1 AP. Mae llysiau'r gingroen yn cynnwys nifer o wahanol APau; maent yn bresennol ym mhob rhan o'r planhigyn ac mae'r crynodiadau uchaf i'w gweld yn y blodau.

8. Caiff APau eu metaboleiddio yn yr afu, gan arwain o bosibl at niwed difrifol i'r afu a marwolaeth. Mae'r effeithiau yn dibynnu ar gyfanswm yr APau a gaiff eu llyncu, pa mor agored i niwed yw'r rhywogaeth dan sylw a goddefgarwch unigol yr anifail (e.e. oedran, statws maethol ac iechyd cyffredinol). Mae nifer sylweddol o newidynnau.

9. Gall achos o wenwyno drwy AP fod yn acíwt gan fod swm mawr yn cael ei lyncu ar unwaith, a gall achosi marwolaeth o fewn ychydig ddiwrnodau. Fodd bynnag, mae effeithiau achos o wenwyno drwy lysiau'r gingroen yn fwy tebygol o fod yn gronig ac mae'n bosibl na fyddant i'w gweld ar unwaith, oherwydd gall niwed i'r afu wedi'i achosi gan APau ddatblygu'n raddol. Gall gymryd wythnosau, neu fisoedd hyd yn oed, i'r symptomau ddod i'r amlwg, gan arwain yn gyffredinol at farwolaeth. Mae symptomau achos o wenwyno drwy APau mewn ceffylau yn cynnwys ffotosensitifrwydd, y clefyd melyn, colli pwysau, diffyg cydlyniad, iselder, ffitiau, coma, syrthni a dylyfu gên.

10. Nid oes unrhyw brawf penodol ar gyfer achos o wenwyno drwy lysiau'r gingroen a gall sawl ffactor arall hefyd achosi'r un effeithiau ar yr afu, gan gynnwys tocsinau eraill. Felly ni ellir cadarnhau diagnosis o wenwyno drwy lysiau'r gingroen heb wybod bod y planhigyn wedi cael ei lyncu. Gall hyn fod yn anodd ei ddogfennu pan fydd achos hir o oedi rhwng dod i gysylltiad â llysiau'r gingroen ac arwyddion o wenwyno.

11. Yn gyffredinol, ystyrir bod llysiau'r gingroen ffres yn chwerw a bod ganddynt flas annymunol; yn aml, gwelir bod ceffylau a gwartheg yn osgoi eu bwyta pan fydd porthiant amgen digonol ar gael. Fodd bynnag, ceir ymddygiad gwahanol rhwng rhywogaethau, er enghraifft gallai defaid a geifr ddewis pori llysiau'r gingroen hyd yn oed pan fydd porthiant amgen ar gael. Gall ceffylau a gwartheg fwyta llysiau'r gingroen ffres mewn rhai sefyllfaoedd – yr un amlycaf yw pan nad oes dewis arall o ran porthiant. Mae posibiliadau eraill sydd wedi'u hawgrymu yn cynnwys os bydd ganddynt ddiffyg mwynol, os nad yw'n hawdd gweld y planhigion ifanc, pan fydd stoc sydd newydd eu troi allan yn llwglyd, neu pan fydd anifeiliaid unigol yn datblygu blas ar eu cyfer. Fodd bynnag, prin yw'r gwaith ymchwil ar y pwnc hwn, ac mae'r wybodaeth sydd ar gael yn anecdotaidd ar y cyfan ac yn seiliedig ar arsylwadau. Mae rhywfaint o dystiolaeth ddiweddar sy'n awgrymu y gall llysiau'r gingroen fod yn ddeniadol i ddefaid o safbwynt maeth oherwydd ffactorau fel eu cynnwys siwgr a phrotein.

12. Un o nodweddion allweddol llysiau'r gingroen yw bod yr APau sy'n bresennol yn y planhigyn byw yn parhau'n wenwynig yn y planhigyn marw. Mae hyn yn cynnwys planhigion sydd wedi gwywo, wedi sychu neu wedi'u cadw mewn bwyd anifeiliaid/porthiant, a phlanhigion sydd wedi cael eu trin yn gemegol neu wedi'u rheoli'n ddiwylliannol (e.e. drwy eu tynnu neu eu torri).

13. Pan fyddant wedi gwywo, ni all ceffylau a gwartheg wahaniaethu llysiau'r gingroen ac maent yn fwy tebygol o'u bwyta. Felly, os caiff llysiau'r gingroen eu cynnwys fel rhan o borthiant, mae'n peri risg uwch na'r risg sy'n gysylltiedig â phori. Gall porthiant cadw gynnwys sawl tunnell a sawl swp o gynnyrch ac mae'n bosibl y bydd llysiau'r gingroen wedi'u gwasgaru'n anghyfartal drwyddo. Nid yw'n ymarferol mesur hyd at lefel sicrwydd effeithiol ar sail cost. Fel y cyfryw, dylid ystyried bod unrhyw wair, silwair, bwyd anifeiliaid neu borthiant arall sy'n cynnwys llysiau'r gingroen yn anaddas i fwydo anifeiliaid a dylid ei waredu'n ddiogel.

14. Atal ceffylau a da byw rhag mynd i gaeau lle mae llysiau'r gingroen yn tyfu a'u hatal rhag cael gafael ar fwyd anifeiliaid halogedig yw'r unig ffordd o ddileu'r risg y cânt eu gwenwyno gan lysiau'r gingroen yn llwyr. Nid yw'n ymarferol gwrthod mynediad i gaeau sy'n cynnwys llysiau'r gingroen mewn rhai achosion, ac mewn achosion o'r fath, dylai strategaethau da ar gyfer rheoli porfeydd ganolbwyntio ar dynnu llysiau'r gingroen o'r safle a lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn cael eu hailgyflwyno/aildyfu (gweler **Atodiad 2**). Os caiff llysiau'r gingroen eu tynnu o'r safle, dylid eu gwaredu'n ddiogel gan eu bod yn fwy tebygol o gael eu bwyta gan felly beri risg o wenwyno (gweler **Atodiad 5**).

15. O ran y risg i iechyd pobl os byddant yn cyffwrdd â llysiau'r gingroen, dim ond data sylfaenol iawn sydd ar gael am amsugno APau drwy'r croen. Fodd bynnag, gall cyswllt croenol â llysiau'r gingroen achosi adwaith alergaidd o'r enw Dermatitis Compositae. Caiff ei achosi gan lactonau sesquiterpene sy'n cael eu cynhyrchu'n gyffredin gan blanhigion sy'n perthyn i deulu llygad y dydd. Nid ydynt yr un fath ag APau. Dylid cymryd rhagofalon synhwyrol fel gwisgo menig wrth ymdrin â llysiau'r gingroen e.e. wrth eu tynnu â llaw (gweler **Atodiad 6** Canllawiau Diogelwch). Mae'r risg i iechyd pobl yn sgil halogi bwyd o anifeiliaid a phlanhigion ag APau yn faes ymchwil parhaus. Ymddengys bod achosion o halogi mewn cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid yn gymharol brin yng nghyd-destun yr UE. Mae amrywiaeth o ddulliau dadansoddi bellach yn cael eu defnyddio, ar y cyd â chanllawiau ar lefelau derbyniol o APau mewn bwyd.

# Y fframwaith cyfreithiol

16. O dan Ddeddf Chwyn 1959 (www.legislation.gov.uk/ukpga/Eliz2/7-8/54/contents), caiff Gweinidogion Cymru, os byddant yn fodlon bod chwyn niweidiol yn tyfu ar unrhyw dir, gyflwyno hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r meddiannydd (www.legislation.gov.uk/ukpga/Eliz2/7-8/54/section/11) gymryd y cyfryw gamau ag sydd eu hangen i atal y chwyn rhag lledaenu. Mae unrhyw achos rhesymol o fethu â chydymffurfio â'r hysbysiad yn drosedd.

Mae'r Ddeddf yn gymwys i'r canlynol[1]:

- Llysiau'r gingroen (*Jacobaea vulgaris*, synonym *Senecio jacobaea*)
- Marchysgallen (*Cirsium vulgare*)
- Ysgallen y maes (*Cirsium arvense*)
- Tafolen grech (*Rumex crispus*)
- Tafolen lydanddail (*Rumex obtusifolius*)

1 Mae'r pŵer gan Weinidogion Cymru i ychwanegu at y rhestr hon fel y bo angen

17. Mae Deddf Rheoli Llysiau'r Gingroen 2003 (www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/40/contents) yn caniatáu i Weinidogion Cymru lunio Cod Ymarfer i roi canllawiau ar sut i atal llysiau'r gingroen rhag lledaenu. Mae'r Cod yn dderbyniol fel tystiolaeth a chaiff ei ystyried gan y llysoedd os bydd yn ymddangos yn berthnasol i achosion.

18. Nid yw darpariaethau Deddf Chwyn 1959 yn gymwys i rywogaethau llysiau'r gingroen eraill, e.e., creulys y gors (*Jacobaea aquatica*) a chreulys llwyd (*Jacobaea erucifolia*).

19. Mae rhai rhywogaethau llysiau'r gingroen yn brin, fel creulys Gymreig (*Senecio cambrensis*) y mae ei dosbarthiad wedi'i gyfyngu i Ogledd Cymru yn unig ar hyn o bryd. Gellir gweld ei ddosbarthiad yn NBN Atlas Ymddiriedolaeth y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol (www.species.nbnatlas.org/species/NBNSYS0000004368#overview) neu fap Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain (BSBI) map dosbarthiad Senecio cambrensis (https://plantatlas2020.org/atlas/2cd4p9h.g14) Lle caiff llysiau'r gingroen eu nodi ar dir sydd wedi'i warchod drwy ddynodiad amgylcheddol neu ecolegol, neu drwy gytundebau rheoli tir eraill, rhaid ystyried y rhwymedigaethau a'r cyfyngiadau ychwanegol hynny yn llawn a'u trafod â'r awdurdodau priodol cyn cychwyn unrhyw gamau i reoli llysiau'r gingroen (gweler **Atodiad 4**). Hefyd, o dan adran 13 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, mae'n drosedd i unrhyw berson, nad yw'n berson awdurdodedig (www.legislation.gov.uk/ukpga/1981/69/section/27), dynnu unrhyw blanhigyn gwyllt yn fwriadol o'r gwraidd.

20. Dylid ystyried bod unrhyw fwyd anifeiliaid neu borthiant i geffylau a da byw sy'n cynnwys llysiau'r gingroen yn anaddas i fwydo anifeiliaid a dylid ei waredu'n ddiogel. Mae'r ddeddfwriaeth ganlynol yn llywodraethu'r broses o werthu bwyd a phorthiant anifeiliaid:

- Deddf Amaethyddiaeth 1970
- Rheoliadau Porthiant 2000
- Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016
- Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016

# Gorfodi

21. Lle nodir pryder ynghylch llysiau'r gingroen, dylid cysylltu â meddiannydd y tir neu'r corff perthnasol sy'n gyfrifol am y tir lle mae llysiau'r gingroen yn tyfu i ddechrau, er mwyn ceisio datrys y mater yn anffurfiol.

22. Os bydd y dull hwn yn methu, gellir cwblhau'r ffurflen gwyno am chwyn niweidiol (www.llyw.cymru/chwyn-niweidiol-ffurflen-gwyno) a'i dychwelyd i Arolygiaeth Wledig Cymru (RIW).

23. Mae Arolygiaeth Wledig Cymru yn rhoi blaenoriaeth i ymchwilio i gwynion sy'n bodloni'r amodau canlynol:

- ceir risg y bydd llysiau'r gingroen yn lledaenu i dir a ddefnyddir i gadw neu i bori ceffylau neu dda byw, tir a ddefnyddir i gynhyrchu porthiant, a gweithgareddau amaethyddol eraill.
- mae'r achwynydd wedi gwneud ymdrechion rhesymol i gysylltu â meddiannydd y tir lle mae'r chwyn yn tyfu, ac i ddatrys y mater yn anffurfiol.

24. Nid yw'n anghyfreithlon cael llysiau'r gingroen yn tyfu ar eich tir. Fodd bynnag, gall Arolygiaeth Wledig Cymru gyflwyno hysbysiad, ar ran Gweinidogion Cymru, yn ei gwneud yn ofynnol i feddiannydd weithredu i atal llysiau'r gingroen rhag lledaenu. Pan gaiff hysbysiad ei gyflwyno, mae'n drosedd i'r person hwnnw fethu'n afresymol â chydymffurfio a gellir codi dirwy arno hyd at lefel 3 (www.legislation.gov.uk/ukpga/2020/17/section/122) ar y raddfa safonol. Os na chaiff methiant ei unioni, bydd yr unigolyn yn cyflawni trosedd bellach.

25. Lle na fydd y meddiannydd wedi cydymffurfio â hysbysiad, caiff Arolygiaeth Wledig Cymru gymryd camau i adennill cost gwneud hynny (www.legislation.gov.uk/ukpga/Eliz2/7-8/54/section/3).

# Asesu'r risg o ledaenu a phenderfynu a oes angen cymryd camau gweithredu

26. Dylai meddianwyr tir nodi tir â llysiau'r gingroen yn bresennol (gweler **Atodiad 1** am fanylion adnabod). Lle bo'r planhigyn yn bresennol, dylai'r meddiannydd gynnal asesiad er mwyn penderfynu a oes risg y bydd yn lledaenu i dir a ddefnyddir i gadw neu bori ceffylau a da byw, neu dir a ddefnyddir i gynhyrchu bwyd anifeilliaid/porthiant.

27. Gall un planhigyn llysiau'r gingroen gynhyrchu miloedd o hadau. Mae gan bob planhigyn ddau fath o had: hadau sy'n drymach ac yn disgyn o amgylch gwaelod y planhigyn, a hadau sy'n cynnwys mecanweithiau sy'n helpu'r gwynt i'w cludo. Mae bylchau yn y data ar wasgariad hadau llysiau'r gingroen, ond mae arbrofion maes yn awgrymu mai dim ond pellterau byr y mae'r gwynt yn debygol o gludo'r rhan fwyaf o hadau.

28. Mae Tabl 1 isod yn darparu methodoleg awgrymedig ar gyfer asesu'r risg y bydd llysiau'r gingroen yn lledaenu. Darperir y tri chategori risg a'r pellterau fel **canllawiau** yn unig. Fodd bynnag, pan fydd Arolygiaeth Wledig Cymru wedi cyflwyno hysbysiad, bydd angen gweithredu fel y disgrifir ym **mharagraff 24** o'r adran Gorfodi.

## Tabl 1: Asesu'r risg y bydd y planhigyn yn lledaenu

| Categori risg y bydd llysiau'r gingroen yn lledaenu | Disgrifiad | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| Risg uwch | Mae llysiau'r gingroen yn bresennol o fewn 35m i dir a ddefnyddir i gadw neu bori ceffylau a da byw, neu dir a ddefnyddir i gynhyrchu bwyd anifeiliaid/porthiant. | Hysbysu meddianwyr tir cyfagos lle bo risg y bydd llysiau'r gingroen yn effeithio ar geffylau neu dda byw, neu dir a ddefnyddir ar gyfer bwyd anifeiliaid/porthiant (os yw'n ymarferol).<br><br>Cymryd camau gweithredu lle bo angen i atal llysiau'r gingroen rhag lledaenu gan ddefnyddio techneg rheoli briodol (gweler **Atodiad 3**) gan ystyried statws y tir (gweler **Atodiad 4**). |
| Risg ganolig | Mae llysiau'r gingroen yn bresennol o fewn 35m i 100m i dir a ddefnyddir i gadw neu bori ceffylau a da byw, neu dir a ddefnyddir i gynhyrchu bwyd anifeiliaid/porthiant. | Monitro yn rheolaidd er mwyn gallu rhagweld pan fydd y risg yn newid o risg ganolig i risg uwch y bydd y planhigyn yn lledaenu a gweithredu lle bo angen, e.e. os bydd newid yn y defnydd tir lleol. Hefyd ailasesu os daw cwyn i law sy'n honni bod llysiau'r gingroen yn lledaenu o'ch tir. |
| Risg isel | Mae llysiau'r gingroen yn bresennol fwy na 100m o dir a ddefnyddir i gadw neu bori ceffylau a da byw, neu dir a ddefnyddir i gynhyrchu bwyd anifeiliaid/porthiant. | Nid oes angen cymryd unrhyw gamau gweithredu ar unwaith ond mae'n bosibl y bydd angen ailasesu'r sefyllfa, e.e. os bydd newid yn y defnydd tir lleol, neu os daw cwyn i law sy'n honni bod llysiau'r gingroen yn lledaenu o'ch tir. |

29. Wrth asesu'r risg, dylid hefyd ystyried amgylchiadau lleol a ffactorau perthnasol eraill fel:

- Prifwyntoedd
- Topograffi
- Lleiniau cysgodi a rhwystrau naturiol a allai atal hadau rhag gwasgaru
- Uchder rhyddhau'r hadau o gymharu â'r llystyfiant cyfagos
- Gorchudd llystyfiant y tir sy'n derbyn yr hadau

30. P'un a yw dwysedd llysiau'r gingroen yn uchel neu'n isel, caiff y ffactor risg ei bennu drwy ystyried y tebygolrwydd y bydd yn lledaenu i dir a ddefnyddir i gadw neu bori ceffylau a da byw, a/neu i gynhyrchu bwyd anifeiliaid neu borthiant.

31. Lle nodwyd risg uwch neu ganolig, anogir perchenogion a meddianwyr i gadw cofnodion o bresenoldeb llysiau'r gingroen, er mwyn helpu i lywio unrhyw gamau gweithredu dilynol a gymerir. Pan fo maint a natur yr ystad yn gwneud hyn yn anos e.e., tir rheilffordd a chefnffyrdd, dylid annog rheolwyr i greu cofnodion o lysiau'r gingroen gan ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd o arolygiadau, ymweliadau ad hoc ac arsylwadau gan y cyhoedd.

# Ystyriaethau o ran lles

32. Mae perchenogion ceffylau a da byw yn gyfrifol yn gyfreithiol am les eu hanifeiliaid, a dylent fodloni eu hunain nad yw eu hanifeiliaid yn dod i gysylltiad â risg. Gweler Deddf Lles Anifeiliaid 2006 (www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/45/contents) a'r tudalennau lles anifeiliaid (www.llyw.cymru/lles-anifeiliaid) ar wefan Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys y Cod Ymarfer ar gyfer Lles Ceffylau (www.llyw.cymru/cod-ymarfer-ar-gyfer-lles-ceffylau). Dylai perchenogion ceffylau a da byw:

- ddarparu deiet addas
- archwilio tir pori yn rheolaidd am lysiau'r gingroen, yn enwedig pan fydd anifeiliaid yn bresennol (gweler **Atodiad 1** am fanylion adnabod).
- sicrhau y caiff porfeydd eu cadw mewn cyflwr da ac na chânt eu tanbori na'u gorbori (gweler **Atodiad 2**).
- sicrhau bod porthiant cadw o ansawdd da ac nad yw wedi'i halogi â llysiau'r gingroen neu halogyddion eraill. Dylai arogli'n ffres ac ni ddylai fod unrhyw lwch na llwydni arno. Dylid ystyried bod porthiant halogedig yn anaddas fel bwyd anifeiliaid a dylid ei waredu'n ddiogel.
- symud ceffylau a da byw i dir heb lysiau'r gingroen lle bo'n ymarferol, ac yn achos da byw, gan ystyried pa mor debygol ydyw, ym mhrofiad ceidwad y stoc, y bydd anifeiliaid penodol yn llyncu llysiau'r gingroen.
- ar dir lle mae da byw a cheffylau yn pori, symud planhigion llysiau'r gingroen o'r safle gan ddefnyddio techneg rheoli briodol (gweler **Atodiad 3**) sy'n ystyried statws y tir (gweler **Atodiad 4**).
- cael gwared ar blanhigion llysiau'r gingroen (byw neu farw) mewn ffordd sy'n sicrhau na all ceffylau a da byw gael gafael arnynt. Mae risg uwch o wenwyno yn gysylltiedig â llysiau'r gingroen sydd wedi marw neu wedi gwywo gan eu bod yn fwy tebygol o gael eu bwyta na llysiau'r gingroen yn eu cyflwr gwyrdd, ond maent yn wenwynig o hyd (gweler **Atodiad 5**).
- dilyn canllawiau diogelwch (gweler **Atodiad 6**).

33. Gall glaswelltir a gedwir at ddibenion cynhyrchu porthiant gan gynnwys gwair, gwywair a silwair gynnwys llysiau'r gingroen. Nid yw ceffylau a da byw yn gallu synhwyro llysiau'r gingroen unwaith y byddant wedi sychu, ond mae'r APau yn llysiau'r gingroen yn peri risg o wenwyno o hyd. Ar eu ffurf sych, mae llysiau'r gingroen yn fwy tebygol o gael eu bwyta ac felly maent yn peri risg uwch o wenwyno i'r anifail na phe byddai'n pori. Dylai cynhyrchwyr porthiant cadw wneud y canlynol:

- archwilio tir yn rheolaidd am lysiau'r gingroen, yn enwedig yn ystod y tymor tyfu (gweler **Atodiad 1**).
- sicrhau y caiff glaswelltir a reolir ei gadw mewn cyflwr da (gweler **Atodiad 2**).
- tynnu planhigion llysiau'r gingroen o'r safle gan ddefnyddio techneg rheoli addas (gweler **Atodiad 3**) sy'n briodol ar gyfer statws y tir lle cynhelir y gwaith rheoli (gweler **Atodiad 4**).
- cael gwared ar blanhigion llysiau'r gingroen (byw neu farw) mewn ffordd gymeradwy sy'n sicrhau na all y planhigion halogi porthiant (gweler **Atodiad 5**).
- dilyn canllawiau diogelwch (gweler **Atodiad 6**).
- sicrhau na chaiff porthiant cadw ei halogi â llysiau'r gingroen. Dylid ystyried bod unrhyw fwyd anifeiliaid neu borthiant i geffylau a da byw sy'n cynnwys llysiau'r gingroen yn anaddas i fwydo anifeiliaid a dylid ei waredu'n ddiogel. Gweler yr adran **Y fframwaith cyfreithiol** ar gyfer y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu prosesau cynhyrchu bwyd ac **Atodiad 5** am fanylion gwaredu.

# Rhagor o gyngor

34. Mae **Atodiad 8** yn darparu dolenni i amrywiaeth o ganllawiau perthnasol gan y llywodraeth a  chyhoeddiadau eraill.

35. Gellir cael cyngor hefyd gan sefydliadau sy'n gyfrifol am reoli'r tir dan eu perchenogaeth a/neu eu rheolaeth h.y., Asiantau'r Cefnffyrdd, yr Awdurdodau Priffyrdd Lleol, Network Rail, Glandŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Cadw (Henebion Cymru), ac Awdurdodau Lleol (gweler **Atodiad 7**). Mae'n bosibl y bydd sefydliadau eraill hefyd yn gallu rhoi cyngor technegol a chyngor ar reoli llysiau'r gingroen (gweler **Atodiad 9**).

# Atodiad 1: Adnabod Llysiau'r Gingroen a'u Bioleg

## Adnabod

1. Mae llysiau'r gingroen (*Jacobaea vulgaris* cyfystyr *Senecio jacobaea*) yn datblygu rhosglwm o ddail gwaelodol yn ystod eu blwyddyn gyntaf ac yn gaeafu ar y ffurf hon (gweler **Ffotograff 3**). Yn ystod eu hail flwyddyn neu flynyddoedd dilynol, mae'r rhosglwm yn cynhyrchu coesyn blodeuol tal o ddiwedd mis Mehefin. Yn ystod y cam hwn, mae'r planhigyn yn dalsyth, yn uchder o 30-90cm fel arfer, ond gall dyfu'n uwch na 100cm. Mae'r coesynnau yn wydn ac yn aml yn dangos olion lliw porffor-goch ar y gwaelod, ond maent yn lliw gwyrdd mwy llachar ac yn dechrau tyfu canghennau uwchlaw'r canol. Fel arfer, mae'r rhosglwm dail gwaelodol yn marw cyn blodeuo, ond mae dail y coesyn yn dal yn fyw. Maent wedi'u dyrannu'n ddwfn, ac mae ganddynt labedau afreolaidd ag ymylon miniog. Mae'r dail i gyd yn wyrdd tywyll ac yn wydn braidd ac mae'n bosibl y bydd ychydig o flewiach ar yr ochr isaf. Mae pen y blodyn ar ffurf pen mawr, amlwg â thop gwastad sy'n cynnwys blodau melyn llachar dwys. Mae nifer sylweddol ohonynt ac maent yn debyg i lygad y dydd, gyda 11-15 o betalau melyn 5-10mm o hyd (gweler **ffotograff 1** a **ffotograff 2**).



Ffotograff 1: Llysiau'r gingroen yn eu blodau.



*Ffotograff 2: Golwg agos ar flodau llysiau'r gingroen.*



*Ffotograff 3: Rhosglymau gwaelodol llysiau'r gingroen.*



*Ffotograff 4: Rhosglymau gwaelodol llysiau'r gingroen.*

Ceir rhagor o ffotograffau i'ch helpu i adnabod y planhigyn yn nhab **Gallery** Plant Atlas 2020 Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain (www.plantatlas2020.org/atlas/2cd4p9h.aqkn6c).

## Blodeuo a chylch oes

2. Fel arfer, bydd y planhigyn yn blodeuo yn ystod yr ail flwyddyn o fis Mehefin tan ddiwedd mis Hydref. Wedi hynny bydd yn creu hadau a bydd fel arfer yn marw. Weithiau, gellir gweld planhigion yn blodeuo yn ystod y gaeaf a dechrau'r gwanwyn. Mae'n bosibl y bydd cyfran fach o'r boblogaeth llysiau'r gingroen yn ymddwyn fel planhigion parhaol byrhoedlog.

3. Gall difrod i'r corun fel torri, pori, difrod gan garnau, ymosodiadau gan lindys, difrod gan beirianwaith ac ymdrechion anghyflawn/aneffeithiol i'w tynnu annog y planhigion i flodeuo bob blwyddyn. Mewn tir gwael, gall rhosglymau gymryd mwy na 2 flynedd i dyfu i faint blodeuo a gallant hefyd aros yn y cam rhosglwm am sawl blwyddyn lle defnyddir gweithdrefnau torri dwys fel y drefn arferol e.e. ar laswelltir amwynder.

## Atgynhyrchu

4. Mae llysiau'r gingroen yn atgynhyrchu drwy hadau a hefyd drwy aildyfu llystyfol o wreiddiau a chorunau sydd wedi'u difrodi.

5. Caiff hadau eu cynhyrchu'n unigol a byddant yn dechrau aeddfedu ym mis Gorffennaf/Awst tan fis Rhagfyr. Fel arfer, bydd y broses wasgaru yn cyrraedd uchafbwynt tua mis Awst/Medi. Mae niferoedd hadau yn amrywio'n eang, ac mae'r amcangyfrifon yn amrywio o lai na 5,000 i 150,000 a mwy ar brydiau fesul planhigyn. Planhigion sydd wedi'u difrodi, e.e. o ganlyniad i dorri neu bori, sy'n debygol o gynhyrchu'r nifer uchaf o hadau.

## Hadau yn egino a hirhoedledd

6. Mae angen lleiniau moel ar hadau er mwyn egino a thyfu. Nid yw eginblanhigion ifanc yn debygol o ymsefydlu ar lastiroedd caeedig ond unwaith y byddant yn cyrraedd y cam rhosglwm, gallant gystadlu â'r llystyfiant o'u cwmpas.

7. Gall hadau a gaiff eu claddu yn y pridd orwedd yn segur am sawl blwyddyn a gallant egino os bydd rhywbeth yn tarfu arnynt ac yn dod â nhw i'r arwyneb. Mae rhywfaint o anghytuno o ran pa mor hir y gall hadau barhau, ond gall canran fach sy'n lleihau o hadau barhau'n hyfyw am 10-16 mlynedd neu hwy o bosibl o dan yr amodau pridd cywir.

8. Mae'r tebygolrwydd y bydd llysiau'r gingroen yn ymsefydlu o'r hadau yn dibynnu a fyddant yn gwasgaru i safle sy'n addas iddynt egino a thyfu, a, thros y tymor hwy, a gaiff yr hadau eu claddu.

## Mathau o hadau a'r broses o'u gwasgaru

9. Mae pob blodeuyn sy'n debyg i lygad y dydd yn cynhyrchu dau fath penodol o hadau:

- **Hadau disg** – dyma yw'r rhan fwyaf o'r hadau ac mae ganddynt fanflew o'u cwmpas (fel hadau dant y llew) er mwyn i'r gwynt allu eu gwasgaru, a strwythurau yr ystyrir eu bod yn helpu iddynt gael eu gwasgaru gan anifeiliaid. Mewn amodau llaith, ni fydd y manflew'n effeithiol ar gyfer cael eu gwasgaru gan y gwynt.
- **Hadau pelydr** – mae'r rhain yn drymach ac nid oes ganddynt unrhyw strwythurau gwasgaru amlwg. Maent yn aros ar y planhigyn hyd nes y cânt eu hysgwyd allan, gan ddisgyn o amgylch bôn y planhigyn fel arfer.

10. Mae arbrofion maes yn awgrymu mai dim ond pellterau byr y mae'r gwynt yn debygol o gludo'r rhan fwyaf o hadau. Credir bod angen ceryntau darfudo a/neu wyntoedd cryf i'w gwasgaru bellter hir ond nid oes unrhyw astudiaethau penodol wedi'u cynnal ar hyn ar gyfer llysiau'r gingroen. Er bod hadau llysiau'r gingroen wedi'u haddasu i gael eu gwasgaru gan y gwynt, mae dulliau gwasgaru eraill yn cael eu crybwyll neu eu harsylwi hefyd yn y llenyddiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys dŵr (ceir awgrymiadau bod hadau o bosibl yn gwasgaru i lawr nant/afon), anifeiliaid (e.e. gwelwyd enghreifftiau o hadau wedi'u dal yng nghotiau da byw a chanfuwyd hadau byw mewn baw cwningod), a gweithgarwch dynol (e.e. hadau yn cael eu cludo mewn gwair neu bridd halogedig). Fodd bynnag, nid oes llawer o wybodaeth am y llwybrau hyn. Ni waeth sut y caiff hadau eu gwasgaru, dim ond os bydd yn glanio ar safle addas i egino y byddant yn gallu tyfu.

## Dosbarthiad

11. Mae llysiau'r gingroen i'w gweld yn eang ledled y DU a gellir dod o hyd iddynt ar dir gwastraff, tir datblygu, dolydd, porfeydd, twyni tywod, ymylon ffyrdd, tir rheilffordd, tir amwynder, ardaloedd cadwraeth, neilltir, coetir, a thir pori. Mae porfeydd ceffylau o ansawdd gwael ac wedi'u rheoli'n wael yn arbennig o agored i lefelau uchel o lysiau'r gingroen. Anaml y byddant i'w gweld ar ffurf chwyn âr ond maent yn ymsefydlu mewn braenar ac ymylon caeau.

## Cynefin

12. Mae llysiau'r gingroen i'w gweld dros amrywiaeth eang o amodau hinsoddol a mathau o bridd (er bod yn well ganddynt briddoedd sy'n draenio'n rhydd). Gallant fod yn nodwedd glaswelltiroedd wedi'u rheoli'n wael, lle bydd sathru yn torri'r borfa, lle bydd lleiniau tywarch wedi marw yn ystod cyfnodau sych, neu mewn ardaloedd a gaiff eu tanbori/eu gorbori. Fodd bynnag, gall glaswelltiroedd wedi'u rheoli'n dda, sych, asid, neu galchaidd gynnwys llysiau'r gingroen yn naturiol. Achosion o darfu ar ymylon glaswelltog, argloddiau, ardaloedd coetir sy'n arwain at bridd agored, yn ogystal â thwyni tywod, yw'r amodau mwyaf ffafriol i eginblanhigion ymsefydlu gan ei fod yn blanhigyn arloesi.

## Rhywogaethau eraill o greulys

13. Er mai dim ond llysiau'r gingroen, sef yr aelod mwyaf cyffredin o deulu'r creulys, sy'n destun darpariaethau Deddf Chwyn 1959, mae aelodau eraill sy'n perthyn yn agos o rywogaethau *Senecio a Jacobaea* a all achosi rhai problemau wrth adnabod y planhigyn. Ceir ffotograffau i'ch helpu i adnabod y planhigyn yn nhab **Gallery** 'Plant Atlas 2020' BSBI – ceir dolenni yn y disgrifiadau isod:

    a. Mae **creulys lwyd** (*Jacobaea erucifolia* cyfystyr *Senecio erucifolius*) yn tyfu'n bennaf ar ymylon ffyrdd, mewn dolydd lled-naturiol, ac ar ffiniau caeau. Mae blewiach llwyd cotymog dwys ar ochr isaf y dail. Mae dail y coesyn wedi'u rhannu'n fân ond nid yw dail y rhosglymau wedi'u rhannu a gellid eu drysu â llysiau'r gingroen mewn glaswelltir wedi'i bori neu wedi'i dorri. BSBI Plant Atlas (www.plantatlas2020.org/atlas/2cd4p9h.aqkn63).

    b. Mae **creulys** y gors (*Jacobaea aquatica* cyfystyr *Senecio aquaticus*) i'w gweld yn helaeth yn lleol mewn ardaloedd gwlyb o gaeau, ffosydd, glannau afon a chorsydd, ac mae'n aml yn edrych yn flêr. Mae'r blodau sy'n dod i'r amlwg ym mis Mehefin, Gorffennaf ac Awst yn fwy ac mewn clystyrau llawer llai tynn na llysiau'r gingroen. Nodwedd unigryw arall yw blaenau crwn y dail. BSBI Plant Atlas (www.plantatlas2020.org/atlas/2cd4p9h.aqkn5p).

    c. Mae **creulys** (*Senecio vulgaris*) yn tyfu'n helaeth ar dir âr a thir gwastraff. Mae'n tyfu i uchder o hyd at 40cm ac mae ganddo goesynnau canghennog a chlystyrau agored o bennau blodau bach, melyn y gellir eu gweld yn blodeuo drwy gydol y flwyddyn. BSBI Plant Atlas (www.plantatlas2020.org/atlas/2cd4p9h.ckm).



*Ffotograff 5: Groundsel.*

Mae nifer o rywogaethau estron hefyd gan gynnwys:

    d. **Creulys Rhydychen** (*Senecio squalidus*). Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan yr Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron (NNSI) (www.nonnativespecies.org/non-native-species/information-portal/view/3229).

    e. **Creulys gulddail** (*Senecio inaequidens*. BSBI Plant Atlas (www.plantatlas2020.org/atlas/2cd4p9h.ghk).

    f. **Creulys ludiog** (*Senecio viscosus*). Er bod y rhywogaeth hon yn rhywogaeth estron, mae ganddi gor-amrywiannau geneteg sydd i'w cael ar ardaloedd graean morol y gellid eu hystyried yn rhywogaethau brodorol (www.plantatlas2020.org/atlas/2cd4p9h.990).

## Rhywogaethau creulys prin

14. **Creulys Gymreig** (*Senecio cambrensis*, sydd wedi'i chyfyngu i Ogledd Cymru yn unig ar hyn o bryd. Datblygodd o groesiad rhwng dwy rywogaeth gysylltiedig. Gellir gweld ei dosbarthiad ar fap dosbarthiad *Senecio cambrensis* BSBI (www.plantatlas2020.org/atlas/2cd4p9h.g14).

15. Mae creulys y ffos (*Jacobaea paludosa* cyfystyr *Senecio paludosus*) yn blanhigyn brodorol Prydeinig prin iawn. Roedd wedi diflannu, ond cafodd ei hailgyflwyno ar safleoedd ffen yn Lloegr. Mae wedi'i rhestru yn Atodlen 8 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (www.legislation.gov.uk/ukpga/1981/69/schedule/8). Gellir gweld ffotograffau a manylion am ei dosbarthiad yn Plant Atlas BSBI (www.plantatlas2020.org/atlas/2cd4p9h.aqkn69).

## Planhigion sy'n edrych yn debyg i lysiau'r gingroen

16. Mae rhai rhywogaethau eraill o blanhigion a allai edrych fel llysiau'r gingroen. Ceir ffotograffau i'ch helpu i adnabod y planhigyn yn nhab **Gallery** 'Plant Atlas 2020' BSBI, neu yn Atlas y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol (NBN). Ceir dolenni yn y disgrifiadau isod:

Mae **tansi** (Tanacetum vulgare) yn blanhigyn parhaol sy'n gyffredin mewn gwrychoedd a mannau gwastraff, ac mae'n cyrraedd uchder o 60-100cm. Mae ganddo goesynnau deiliog talsyth onglog, â dail bob yn ail â thoriadau dwfn. Mae'n blodeuo yn ystod mis Awst a mis Medi ac mae ganddo bennau blodau melyn dwl, crwn a gwastad sy'n tyfu mewn clystyrau a chanddynt arogl ryfedd. BSBI Plant Atlas (www.plantatlas2020.org/atlas/2cd4p9h.9b1).



*Ffotograff 6: Tansi.*

Mae **llysiau'r milwr melyn neu drewyn** (*Lysimachia vulgaris*) yn blanhigyn parhaol a all dyfu i uchder o hyd at 100cm ac mae'n ffurfio lleiniau mawr dwys mewn ardaloedd llaith fel ffosydd, corsydd, ymylon ffyrdd, glannau nentydd, ymylon pyllau a choetir agored. Mae'r blodau melyn llachar wedi'u clystyru at ei gilydd mewn pigau terfynol. BSBI Plant Atlas (www.plantatlas2020.org/atlas/2cd4p9h.1ez).



*Ffotograff 7: Llysiau'r Milwr Melyn.*

Mae'n hawdd adnabod yr **eurwialen** (*Solidago virgaurea*) yn ôl y pennau blodau melyn euraidd sy'n creu paniglau silindrog tynn ar ddiwedd yr haf/dechrau'r hydref. Mae ganddi goesynnau tenau, â dail llinol a gwaywffurf am yn ail, ac mae'n tyfu i uchder rhwng 60 a 100cm. BSBI Plant Atlas (www.plantatlas2020.org/atlas/2cd4p9h.w23).



Ffotograff 8: Eurwialen.

Mae'r **eurinllys mawr** (*Hypericum maculatum*) yn blanhigyn parhaol sy'n tyfu'n syth i uchder o 25-50cm, yn aml â chwarennau du ar y dail a'r petalau. Mae'n tyfu fel arfer mewn mannau llaith glaswelltog, fel gwrychoedd a dolydd gwlyb. Mae'r blodau melyn llachar yn dod i'r amlwg o fis Mehefin hyd at fis Medi. BSBI Plant Atlas (www.plantatlas2020.org/atlas/2cd4p9h.c4h).



Ffotograff 9: Eurinllys Mawr.

Mae **rhywogaethau heboglys** (*Hieracium spp.*) yn blanhigion parhaol ymlusgol â gwreiddiau ffibrog, stolonau ymlusgol, nodd llaethog a blodau melyn trawiadol tebyg i ddant y llew. Maent yn tyfu gan amlaf mewn caeau, porfeydd a dolydd, ar ymylon ffyrdd ac mewn ardaloedd y tarfwyd arnynt. NBN Atlas (www.species.nbnatlas.org/species/NHMSYS0000459324).



Ffotograff 10: Rhywogaethau heboglys.

Hefyd:

- Clust y Gath Gyffredin (*Hypochaeris radicata*). BSBI Plant Atlas (www.plantatlas2020.org/atlas/2cd4p9h.18f).
- Cedowydd(*Pulicaria dysenterica*). BSBI Plant Atlas (www.plantatlas2020.org/atlas/2cd4p9h.1nx).
- Chweinllys y Maes (*Tephroseris integrifolia*). BSBI Plant Atlas (www.plantatlas2020.org/atlas/2cd4p9h.w1p).
- Creulys y Rhos (*Senecio sylvaticus*). BSBI Plant Atlas (www.plantatlas2020.org/atlas/2cd4p9h.98s).
- Llysiau'r Gwalch Llyfn (*Crepis capillaris*). BSBI Plant Atlas (www.plantatlas2020.org/atlas/2cd4p9h.rx)

# Atodiad 2: Rheoli Glaswelltir

## Porfeydd

1. Mae dulliau rheoli porfeydd yn chwarae rhan hanfodol wrth atal llysiau'r gingroen rhag ymsefydlu a lledaenu. Gall cynnal profa ddwys, barhaus a chystadleuol dros y tymor hir helpu i atal hadau llysiau'r gingroen rhag egino ac ymsefydlu. Gweler **Atodiad 1** am fanylion bioleg llysiau'r gingroen.

2. Nid yw'n bosibl rhoi gwybodaeth gynhwysfawr am reoli porfeydd yn y math hwn o ganllawiau. Mae'r arferion gorau yn amrywio yn ôl amgylchiadau penodol, e.e., mewn perthynas â glaswelltir wedi'i reoli neu laswelltir lled-naturiol heb ei wella.

3. Mae ceffylau yn borwyr dethol iawn a byddant yn pori rhai ardaloedd hyd nes y byddant fwy neu lai'n foel. Gall glaswellt mwy bras ddod i'r amlwg, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny lle mae'r ceffylau yn teilo neu'n troethi, a chaiff y glaswellt ei adael i hadu gan greu porfa anwastad iawn. Gall lleiniau moel ddatblygu gan arwain at amodau delfrydol i lysiau'r gingroen ymsefydlu. Gall dulliau gofalus ar gyfer rheoli porfeydd ceffylau helpu i atal hyn. Gall gadael ceffylau allan o dan amodau gwlyb y gaeaf waethygu'r sefyllfa gan achosi i'r tir gael ei sathru (h.y., ei gorddi gan anifeiliaid), gan ddifrodi'r borfaa chynnig cyfle i lysiau'r gingroen ymsefydlu yn y tir moel. Gall achosion o darfu ar y tir hefyd ddod â hadau sydd wedi'u claddu i'r arwyneb lle byddant o bosibl yn egino.

4. Er mwyn cadw porfeydd ceffylau mewn cyflwr da:

- dylai dwyseddau stocio fod yn briodol ar gyfer maint yr ardal bori a'r llystyfiant sydd ar gael; dylid casglu tail a'i waredu'n rheolaidd;
- ni ddylid caniatáu i blanhigion sy'n wenwynig i dda byw luosogi;
- dylid atal achosion o sathru tir drwy sicrhau bod y tir yn draenio a chyfyngu ar yr amser y mae ceffylau'n ei dreulio ar y caeau o dan amodau gwlyb lle bynnag y bo'n ymarferol. Er enghraifft, gallai hyn fod drwy ddarparu ardaloedd amgen ag arwynebedd gwahanol i'w troi allan yn ystod y gaeaf;
- sicrhau bod porfeydd iach a dwys yn y caeau yn ystod y gaeaf a fydd yn gallu gwrthsefyll sathru yn well;
- pori ar sail cylchdro lle y bo'n bosibl. Mae hyn yn caniatáu i'r porfeydd orffwys ac aildyfu a gall leihau cyffredinrwydd llysiau'r gingroen yn sylweddol o gymharu â stocio parhaus;
- cael gwared ar hen borthiant.

I gael rhagor o wybodaeth am reoli porfeydd, ewch i wefan Cymdeithas Ceffylau Prydain (www.bhs.org.uk/horse-care-and-welfare/health-care-management/pasture-management/grass-management/).

5. Dylid rheoli glaswelltir wedi'i wella'n amaethyddol mewn ffordd sy'n cyflawni gorchudd tir dwys a pharhaus o laswellt a pherlysiau. Dylid cynnal lefelau maethynnau a pH drwy ddefnydd priodol o wrteithiau a chalch. Dylid pennu cyfraddau gwasgaru drwy ddadansoddi'r pridd ac yn unol â rheoliadau cyfredol, gan gynnwys Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 (www.llyw.cymru/rheoliadau-adnoddau-dwr-rheoli-llygredd-amaethyddol-cymru-2021-canllawiau-ar-gyfer-ffermwyr):

- Dylid cynnal lefelau stocio priodol er mwyn osgoi achosion o danbori a gorbori. Dylid pori ar sail cylchdro lle y bo'n bosibl oherwydd gall hyn leihau cyffredinrwydd llysiau'r gingroen ar borfeydd yn sylweddol o gymharu â dulliau stocio parhaus. .
- Lle bydd porfeydd yn dirywio cymaint fel na fydd dulliau eraill yn gwneud rhyw lawer i wella gorchudd porfa, gall fod angen adfer y safle drwy ailhadu. Argymhellir y dylid dilyn y broses hon â dulliau da ar gyfer rheoli porfeydd neu reoli cnydau er mwyn dileu llysiau'r gingroen a allai egino o'r banc hadau.
- Dylid lleihau achosion o sathru er mwyn atal difrod i'r borfa.

### Ardaloedd lled-naturiol ac ardaloedd heb eu trin

6. Lle bo glaswelltir yn cael ei reoli ar gyfer ei werth ecolegol, ond ei fod yn cael ei ddefnyddio hefyd at ddibenion pori, bydd gwahanol gyfyngiadau yn gymwys. Yma bydd angen cadw'r boblogaeth llysiau'r gingroen ar lefel sy'n gyson â gofynion ecolegol y safle, y rhywogaethau sy'n bwysig o safbwynt cadwraeth sy'n byw yno, a lles yr anifeiliaid sy'n pori. Dylai fod digon o lystyfiant derbyniol ar gael i anifeiliaid sy'n pori ar safleoedd o'r fath.

7. Lle bynnag y bo'n bosibl, ni ddylid tarfu ar dir heb ei drin â lefelau isel o lysiau'r gingroen. Lle caiff porfa agored ei chynnal ac y gellir disgwyl i lysiau'r gingroen fod yn elfen naturiol o'r glaswelltir, gallai fod angen dulliau rheoli eraill er mwyn atal llysiau'r gingroen rhag dod yn broblem.

8. Cyn cynnal unrhyw brosiectau dwysâu amaethyddol ar dir lled-naturiol, rhaid i chi holi Llywodraeth Cymru yn gyntaf gan fod angen ystyried gwaith o'r fath o dan 'Reoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017 (www.legislation.gov.uk/wsi/2017/565/contents). Mae tir lled-naturiol yn cynnwys tir sy'n cynnwys llai na 25% o rywogaethau glaswellt amaethyddol wedi'i wella a/neu feillion gwyn. Mae prosiectau dwysâu amaethyddol yn cynnwys, ymhlith eraill, amaethu, gwasgaru pridd, draenio, adfer, defnyddio mwy o wrteithiau a chynyddu cyfraddau pori da byw. Dylid cyflwyno ymholiadau i EIA.Unit@llyw.cymru (gweler **Atodiad 7**). Mae Canllawiau ar Asesiad o'r Effeithiau Amgylcheddol (AEA) (www.llyw.cymru/asesiad-or-effeithiau-amgylcheddol-canllawiau) ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

# Atodiad 3: Technegau Rheoli

## Cyflwyniad

1. Rhaid adnabod llysiau'r gingroen yn gywir er mwyn atal achosion o dynnu planhigion nad oes angen eu targedu drwy gamgymeriad (gweler **Atodiad 1**). Mae'n drosedd o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 i dynnu unrhyw blanhigyn gwyllt yn fwriadol o'r gwreiddyn heb fod yn berson awdurdodedig (www.legislation.gov.uk/ukpga/1981/69/section/27), gan gynnwys llysiau'r gingroen. Nid yw'r canllawiau hyn yn ceisio gwaredu llysiau'r gingroen, na'u rheoli'n ddiwahân.

2. Lle yr ystyrir bod angen eu rheoli, mae tri phrif ddull rheoli ar gael:

- diwylliannol/mecanyddol
- cemegol
- biolegol.

3. Dylai'r dull rheoli gael ei ddewis gan ystyried amodau'r safle (gweler **Atodiad 2** ac **Atodiad 4**) ac unrhyw ofynion cyfreithiol perthnasol eraill. Dylid ystyried dulliau rheoli nad ydynt yn rhai cemegol yn gyntaf a dim ond ar ôl ystyried pob dull rheoli arall yn ofalus y dylid defnyddio chwynladdwyr. Gall y goeden penderfyniadau yn **Ffigur 1** hefyd fod o gymorth wrth ddewis y dull rheoli mwyaf priodol.

4. Bydd angen monitro effaith uniongyrchol unrhyw gamau gweithredu wedi'u rheoli er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol e.e. am hyd at chwe mis neu hyd at ddiwedd y tymor tyfu os yw hynny'n gynharach. Gall fod angen gwaith monitro tymor hwy hefyd gan y gallai'r planhigyn ymsefydlu eto o'r banc hadau a bod potensial ar gyfer aildyfu llystyfol (gweler **Atodiad 1** Bioleg).

## Technegau rheoli diwylliannol/mecanyddol

5. Mae technegau diwylliannol a mecanyddol yn cynnwys dulliau da ar gyfer rheoli porfeydd (gweler **Atodiad 2**), tynnu/defnyddio lifer, a defnyddio llosgwyr.

## Rheoli porfeydd yn dda

6. Dylid cynnal porfa ddwys ac atal ardaloedd tir moel o ganlyniad i achosion o sathru trwm a/neu ormod o stoc lle bynnag y bo'n bosibl. Gellir cyflawni hyn drwy gyfyngu'r amser y bydd yr anifeiliaid yn ei dreulio ar y tir yn ystod amodau tywydd gwlyb, yn enwedig o fis Rhagfyr i fis Mawrth, er mwyn atal achosion o sathru, a thrwy osgoi gorbori ar adegau eraill. Awgrymir y dylid pori ar sail cylchdro lle bynnag y bo'n bosibl. Mae lleiniau moel yn cynnig amodau delfrydol i hadau llysiau'r

gingroen egino ac i eginblanhigion ymsefydlu. Gall achosion o darfu ar y pridd hefyd ddod â hadau sydd wedi'u claddu i'r arwyneb lle byddant o bosibl yn egino. Gall fod angen rheoli poblogaethau cwningod er mwyn cynnal gorchudd tir. Gweler **Atodiad 2** am fanylion rheoli glaswelltir.

## Tynnu a chodi

7. Defnyddir dull tynnu â llaw yn aml fel opsiwn rheoli ar gyfer poblogaethau llai neu wasgaredig o lysiau'r gingroen. Gall tynnu neu godi planhigion atal hadau rhag lledaenu ond dylid anelu at dynnu holl rannau'r gwreiddyn i'w hatal rhag aildyfu ac i osgoi tarfu ar y pridd cymaint â phosibl. Ceir y canlyniadau gorau pan fydd y pridd yn llaith er mwyn helpu i dynnu'r gwreiddyn, a chyn i lysiau'r gingroen hadu. Ar gyfer ardaloedd mwy, gellid ystyried defnyddio dulliau tynnu â pheiriant.

8. Dylid cymryd rhagofalon synhwyrol wrth ymdrin â phlanhigion llysiau'r gingroen byw a marw. Dylai pob gweithiwr sy'n ymdrin â'r planhigyn fod wedi cael cyfarwyddiadau priodol ar gyfer y dasg a dylai fod wedi cael y cyfarpar diogelu personol priodol (gweler **Atodiad 6**).

9. Bydd angen gwaith rheoli dilynol er mwyn cael gwared ar blanhigion a gafodd eu methu a'r rhai hynny a fydd wedi aildyfu o ddarnau o'r gwreiddyn neu hadau. Mae hyn yn cynnwys o hadau wedi'u claddu a all ddod i'r arwyneb ac egino.

10. Gall cyfuniad o dynnu neu godi â llaw/mecanyddol a dulliau rheoli porfeydd da (gan gynnwys lleihau achosion o darfu ar y pridd) fod yn effeithiol yn erbyn llysiau'r gingroen os cânt eu hailadrodd dros sawl blwyddyn, heb fod angen defnyddio chwynladdwyr.

11. Dylid **cael gwared ar unwaith** ar lysiau'r gingroen sydd naill ai wedi'u tynnu neu eu codi â llaw neu'n fecanyddol a'u **gwaredu'n ddiogel** (gweler **Atodiad 5**). Mae planhigion a gaiff eu gadael yn gorwedd yn y cae, neu eu cynnwys fel rhan o borthiant cadw, yn peri risg gwenwyno uwch i geffylau a da byw gan eu bod yn parhau'n wenwynig ac yn fwy tebygol o gael eu bwyta na'r planhigyn byw. Mae gwaith ymchwil diweddar hefyd yn awgrymu y gallai APau sy'n gollwng o blanhigion llysiau'r gingroen sy'n pydru i mewn i'r pridd hefyd gael eu hamsugno, ac felly eu trosglwyddo, gan dderbynwyr-blanhigion cyfagos nad ydynt yn cynhyrchu APau eu hunain. Gall planhigion sy'n blodeuo fwrw hadau o hyd hefyd.

## Torri

12. Dim ond pan fetho popeth arall y dylid defnyddio dulliau torri fel dull rheoli a hynny er mwyn lleihau nifer yr hadau a gynhyrchir ac a wasgerir lle na ellir defnyddio dulliau rheoli eraill mwy effeithiol. Mae torri yn ysgogi twf ac o ganlyniad, gall planhigion ffurfio nifer o flagur ochrol a fydd yn blodeuo eto'n ddiweddarach yn ystod y tymor. Mae'n anodd dod o hyd i'r dyddiad torri gorau a gall planhigion yn yr ardal darged fod ar gamau tyfu gwahanol.

13. **Dylid symud planhigion wedi'u torri ymaith ar unwaith a'u gwaredu'n ddiogel** (see **Atodiad 5**). Ni ddylid caniatáu i geffylau a da byw ddychwelyd i'r cae hyd nes y bydd y planhigion wedi cael eu symud oddi yno, ac ni ddylid cynnwys y planhigion fel rhan o borthiant cadw.

## Llosgwyr

14. Gellir defnyddio llosgwyr sbot (gynau fflam a ddelir â llaw) ar gyfer planhigion yn y cam rhosglwm, ac ar blanhigion sy'n blodeuo a phlanhigion sy'n hadu. Bydd angen ystyried y difrod posibl i lystyfiant cyfagos a'r risg o dân. Bydd angen ystyried diogelwch gweithredwyr yn ofalus hefyd. Nid yw defnyddio llosgwyr sbot yn debygol o fod yn addas o dan y rhan fwyaf o amgylchiadau, ac eithrio ar arwynebeddau caled ac ardaloedd palmantog. Lle mai defnyddio llosgwyr sbot yw'r dull rheoli a ffefrir, rhaid cynnal asesiad risg addas a digonol cyn eu defnyddio.

## Technegau Rheoli Cemegol

### Defnyddio chwynladdwyr

15. Cyn prynu a defnyddio unrhyw chwynladdwyr, dylech ystyried a oes wir eu hangen i reoli'r pla, y clefyd neu'r chwyn dan sylw ac a oes dull rheoli arall yn lle'r dull rheoli cemegol traddodiadol.

16. Mae unrhyw berson sy'n defnyddio chwynladdwyr proffesiynol, neu sy'n cyflogi contractwyr i'w defnyddio, yn ddarostyngedig i nifer o ofynion cyfreithiol. Mae'r rhain yn cynnwys hyfforddiant penodol, profion offer, gofynion o ran cadw cofnodion a chymryd yr holl ragofalon rhesymol i ddiogelu iechyd pobl a'r amgylchedd. Mae'r gofynion hyn wedi'u nodi yn Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Defnydd Cynaliadwy) 2012 (www.legislation.gov.uk/uksi/2012/1657/contents).

17. Mae'r Code of Practice for Using Plant Protection Products yn rhoi rhagor o gyngor i bob defnyddiwr proffesiynol cynhyrchion diogelu planhigion yng Nghymru a Lloegr. Mae gwybodaeth am Reoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Defnydd Cynaliadwy) 2012 a'r (www.hse.gov.uk/pesticides/using-pesticides/codes-of-practice/code-of-practice-for-using-plant-protection-products.htm) ar gael ar wefan HSE. Disgwylir i'r Cod Ymarfer gael ei ddiweddaru yn 2026 felly pan fydd y fersiwn fwy newydd ar gael, dylid cyfeirio at y fersiwn honno.

18. Dim ond person cymwys sydd wedi ymgymryd â'r hyfforddiant perthnasol, neu rywun sy'n gweithio o dan oruchwyliaeth bersonol uniongyrchol person sydd wedi ymgymryd â'r hyfforddiant, ddylai ddefnyddio chwynladdwyr proffesiynol.

19. Rhaid profi mathau penodol o offer sy'n gysylltiedig â defnyddio chwynladdwyr yn rheolaidd o dan y Cynllun Profion Chwistrellu Cenedlaethol (NSTS). Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan NSTS (www.nsts.org.uk). Dylai'r gweithredwr gadw cofnodion cyfredol o arolygiadau, gwiriadau ac atgyweiriadau.

20. Dim ond ar ôl cwblhau asesiad risg sy'n ystyried effeithiau tymor byr a hirdymor, effeithiau lleol a phell, effeithiau ar anifeiliaid yn ogystal â phlanhigion nad ydynt yn cael eu targedu, ac effeithiau anuniongyrchol posibl (e.e., drwy ddinistrio safleoedd nythu, achosion o diocsigenu pyllau wedi'u hachosi gan organebau yn pydru neu lystyfiant marw) y dylid defnyddio chwynladdwyr.

21. Er mwyn lleihau effeithiau chwynladdwyr ar rywogaethau nad ydynt yn cael eu targedu:

- defnyddiwch beiriant weed wiper neu sbot-drin lle bynnag y bo'n ymarferol.
- defnyddiwch chwynladdwr dethol sy'n llai dinistriol i rywogaethau nad ydynt yn cael eu targedu.
- gadewch ardal glustogi heb ei chwistrellu rhwng y rhywogaethau/cynefinoedd sy'n cael eu trin a'r rhai sydd dan fygythiad.
- defnyddiwch ffroenellau diferu o faint priodol.
- cadwch y ffroenellau chwistrellu mor agos â phosibl at planhigion sy'n cael eu targedu.
- ystyriwch ddefnyddio ffroenellau drifft isel.
- osgowch chwistrellu mewn tywydd anaddas, e.e., pan fydd cyflymder y gwynt yn uwch na Grym Beaufort 2 neu ar ddiwrnodau cynnes, llonydd iawn.

22. Cyn gallu defnyddio, gwerthu, cyflenwi neu storio unrhyw chwynladdwr, rhaid iddo gael ei awdurdodi i'w ddefnyddio. Gellir defnyddio tudalennau gwe'r gronfa ddata plaladdwyr (www.secure.pesticides.gov.uk/pestreg) ar wefan HSE i chwilio am wybodaeth am Gynhyrchion Diogelu Planhigion sydd wedi'u hawdurdodi i'w defnyddio ym Mhrydain Fawr. Lle nad oes unrhyw gynnyrch awdurdodedig arall ar gael, mae'n bosibl y caniateir defnyddio cynnyrch o dan 'estyniad o awdurdodiad ar gyfer mân ddefnydd' (EAMU). Gellir defnyddio tudalennau gwe cronfa ddata plaladdwyr HSE i chwilio am wybodaeth am estyniadau o'r fath (www.secure.pesticides.gov.uk/offlables/search.asp).

23. Dylid darllen y label ar y cynnyrch bob amser cyn defnyddio unrhyw chwynladdwr a chydymffurfio â'r holl amodau statudol ar y label hwnnw. Lle bydd EAMU yn bodoli, weithiau bydd gwybodaeth am ddefnydd ar y label, ond nid bob amser. Lle nad oes unrhyw fanylion ar y label, rhaid i ddefnyddwyr gael gafael ar destun yr EAMU a'i ddarllen cyn dechrau ei ddefnyddio (www.secure.pesticides.gov.uk/offlabels/search.asp). Dylai defnyddwyr fod yn ymwybodol mai nhw sy'n gyfrifol am unrhyw risg sy'n gysylltiedig â defnyddio plaladdwyr a ddefnyddir o dan EAMU, ac ni fyddant o reidrwydd mor effeithiol â chynnyrch wedi'i awdurdodi'n llawn.

24. Nid yw chwynladdwyr yr un mor effeithiol yn ystod pob cam o dwf planhigyn ac mae'n bosibl yr argymhellir triniaethau lluosog ar wahanol adegau o'r flwyddyn er mwyn cael y canlyniad rheoli gorau. Nodir cyfarwyddiadau defnyddio ar label y cynnyrch. Dylai penderfyniadau o ran defnydd ystyried effeithiolrwydd y chwynladdwr yn erbyn y rhywogaeth sy'n cael ei thargedu (e.e. mae llawer o chwynladdwyr yn fwy effeithiol pan gânt eu defnyddio ar chwyn sy'n tyfu ar y pryd) ac unrhyw effeithiau tebygol y caiff gwahanol amseroedd ar rywogaethau nad ydynt yn cael eu targedu ar y safle hwnnw.

25. **Bydd label y cynnyrch hefyd yn cynnwys gwybodaeth am unrhyw gyfnod o amser y bydd angen cadw anifeiliaid i ffwrdd o'r ardal a gafodd ei thrin. Os na fydd planhigion llysiau'r gingroen wedi pydru ddigon ac wedi diflannu erbyn diwedd y cyfnod penodedig, dylid parhau i gadw anifeiliaid allan o'r ardal hyd nes y byddant wedi gwneud**. Fel rhagofal, mae'n bosibl y bydd rheolwyr tir am ystyried cadw anifeiliaid o'r ardal am bythefnos ychwanegol ar ôl i'r holl lysiau'r gingroen a gafodd eu trin ddiflannu.

26. Mae Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Defnydd Cynaliadwy) 2012 yn cynnwys darpariaethau i ddiogelu dŵr er mwyn sicrhau bod amlder defnyddio chwynladdwyr mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol. Ceir rhagor o ganllawiau ar atal achosion o halogi dŵr wyneb a dŵr daear yn y (www.hse.gov.uk/pesticides/using-pesticides/codes-of-practice/index.htm#)

27. Bydd defnyddio chwynladdwyr i reoli llysiau'r gingroen yn effeithio ar rywogaethau eraill o blanhigion yn yr ardal sy'n cael ei thrin. Mae ardaloedd a warchodir gan ddeddfwriaeth, e.e., Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a chynlluniau amaeth-amgylchedd, hefyd yn cyfyngu'r defnydd o rai cemegau penodol neu'r dull defnyddio a dylid cysylltu â'r awdurdod perthnasol cyn gweithredu (gweler **Atodiad 4**).

28. Rhaid gwaredu cemegion dros ben yn unol â'r (www.hse.gov.uk/pesticides/using-pesticides/codes-of-practice/index.htm#) a'r ddeddfwriaeth sydd mewn grym yng Nghymru.

## Dulliau defnyddio

29. Bydd y canlynol yn dylanwadu ar y math o chwynladdwr a ddefnyddir i reoli llysiau'r gingroen, a'r dull defnyddio:

- graddau, dosbarthiad, a lleoliad y rhywogaeth sy'n cael ei thargedu
- uchder a strwythur y rhywogaeth sy'n cael ei thargedu
- uchder, strwythur, a sensitifrwydd y rhywogaethau amgylchynol/cyfagos nad ydynt yn cael eu targedu
- gofynion cymeradwyo a gofynion labeli.

30. Argymhellir sbot-drin neu sbot-daenu fel y ffordd fwyaf priodol o reoli llysiau'r gingroen gan ddefnyddio cemegion. Gallai triniaethau heb eu targedu cystal waethygu problem llysiau'r gingroen drwy greu tir moel lle gall eginblanhigion llysiau'r gingroen ymsefydlu.

31. Y math o chwistrellydd llaw a ddefnyddir amlaf yw'r chwistrellydd cefn, sy'n addas ar gyfer sbot-drin llysiau'r gingroen ar ardaloedd bach ac ar dir garw neu serth iawn. Gall chwistrellwyr ar gefn tractorau neu gerbydau pob tir (e.e. beiciau cwad) fod yn fwy addas ar gyfer ardaloedd mwy o dir cymharol wastad ond, yn ôl eu natur, maent yn anelu at ardaloedd llai penodol na chwistrellwyr llaw ac mae'n bosibl na fyddant yn briodol ar gyfer pob sefyllfa.

32. Mae peiriannau weed wiper yn darparu dull wedi'i dargedu ar gyfer trin chwyn sy'n dalach (o leiaf 10cm yn dalach) na'r llystyfiant cysylltiedig nad yw'n cael ei dargedu. Mae peiriannau weed wiper ar gael ar gyfer gweithrediadau o wahanol faint, o beiriannau llaw bach i beiriannau mawr i'w defnyddio ar gefn tractor.

33. **Os na fydd llysiau'r gingroen wedi'u trin wedi marw ac wedi diflannu'n llwyr ar ôl y cyfnod a nodir ar y label, dylid parhau i atal da byw rhag mynd i'r ardal**. Mae hyn oherwydd bod llysiau'r gingroen wedi'u trin yn wenwynig o hyd ond eu bod yn fwy tebygol o gael eu bwyta na'r planhigyn yn ei gyflwr gwyrdd. Dim ond pan na fydd y planhigion yn hygyrch iddynt mwyach y bydd yn ddiogel i anifeiliaid bori. Mae gwaith ymchwil diweddar hefyd yn awgrymu y gallai APau sy'n gollwng o blanhigion llysiau'r gingroen sy'n pydru ac yn mynd i mewn i'r pridd hefyd gael eu hamsugno, ac felly eu trosglwyddo, gan dderbynwyr-blanhigion cyfagos nad ydynt yn cynhyrchu APau eu hunain. Fel rhagofal, mae'n bosibl y bydd rheolwyr tir am ystyried cadw anifeiliaid o'r ardal am bythefnos ychwanegol ar ôl i'r holl lysiau'r gingroen a gafodd eu trin ddiflannu. Mae'r un egwyddorion yn berthnasol i laswelltir wedi'i drin y bwriedir ei gadw ar gyfer gwair, gwywair neu silwair.

34. Mae (www.naturalengland.blog.gov.uk/2025/10/06/new-weed-control-handbook-published-a-smarter-greener-approach-to-vegetation-management/), a gyhoeddwyd gan Natural England ym mis Awst 2025 yn darparu tabl (Tabl 5) sy'n rhestru chwynladdwyr posibl y gellir eu defnyddio yn erbyn rhywogaethau penodol gan gynnwys llysiau'r gingroen. Cyn defnyddio unrhyw rai o'r chwynladdwyr hyn, dylai defnyddiwr ystyried yr holl wybodaeth yn yr Atodiad 3 hwn a chadarnhau bod y chwynladdwr wedi'i awdurdodi o hyd ar gyfer y defnydd a nodir yn y canllawiau hynny (gweler **paragraff 22** o'r Atodiad hwn).

## Technegau rheoli biolegol

35. Nod technegau rheoli biolegol yw rheoli llysiau'r gingroen drwy ddefnyddio gelynion naturiol y planhigyn i leihau ei ddwysedd, a thrwy hynny leihau poblogaethau llysiau'r gingroen, a chaniatáu i blanhigion eraill ymsefydlu eto. Mae llawer o rywogaethau o infertebratau yn bwydo ar lysiau'r gingroen, gan gynnwys gwyfyn y creulys (*Tyria jacobaea*), chwilen naid llysiau'r gingroen (*Longitarsus jacobaeae*) a phryfyn hadau llysiau'r gingroen (Botanophila seneciella). Gall dwyseddau uchel neu 'lefelau pla' o wyfynod y creulys yn arbennig ddinistrio poblogaethau cyfan o lysiau'r gingroen. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fyddai lledaeniad naturiol y rhywogaethau hyn bob amser mor eang â llysiau'r gingroen. Mae cyfryngau rheoli biolegol posibl eraill yn cynnwys sawl pathogen ffyngaidd (clefydau rhwd) ond nid oes unrhyw un ohonynt yn lleihau poblogaethau llysiau'r gingroen yn sylweddol, nac wedi cael eu defnyddio'n helaeth yn y DU i reoli poblogaethau llysiau'r gingroen hyd yn hyn.

36. Gall cyflwyno cyfrwng rheoli biolegol fod o fantais bosibl mewn ardaloedd lle nad oes modd cynnal gwaith rheoli cemegol/mecanyddol neu le na fyddai'n ddymunol gwneud hynny. Fodd bynnag, oherwydd parasitiaid ac ysglyfaethwyr naturiol yn y DU, gall fod yn anodd cynnal poblogaethau digonol o'r cyfrwng bioreoli i ddarparu rheolaeth ddigonol ac mae'n bosibl mai dim ond lleihau'r lledaeniad y bydd yn ei wneud yn hytrach na'i reoli. Felly, yn ddelfrydol, dylid defnyddio technegau rheoli biolegol fel rhan o strategaeth hirdymor. Mae angen cymeradwyaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) cyn defnyddio'r dechneg hon mewn SoDdGAau, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac ardaloedd eraill wedi'u gwarchod gan ddynodiad amgylcheddol neu ecolegol. Byddai angen trwyddedau gan CNC cyn cymeradwyo rhywogaeth estron i'w rhyddhau fel cyfrwng bioreoli.


37. Nid argymhellir cynlluniau pori bwriadol gan geffylau, defaid, geifr neu dda byw eraill i reoli llysiau'r gingroen ar sail lles anifeiliaid. Bydd defaid yn pori llysiau'r gingroen ac maent yn fwy goddefgar na'r rhan fwyaf o dda byw eraill, ond **mae risg iddynt o hyd**.

## Tabl 2: Crynodeb o ddulliau rheoli cyffredin

| Dull | Llafur sydd ei angen | Cost | Atal blodeuo | Llwyddiant dulliau rheoli - hirdymor | Cyfnod dim pori - diwrnodau | Triniaethau sydd eu hangen bob blwyddyn | Hyd delfrydol y driniaeth | Yn addas ar gyfer ardaloedd mawr | Yn addas ar gyfer dwysedd llysiau'r gingroen uchel | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoli Porfeydd | | | | | | | | | | Gweler **Atodiad 2**. |
| Tynnu neu godi â llaw | *** | * | ** | ** | 0(1) | 1-2 | R neu B | * | * | Ystyriwch gyfarpar diogelu personol priodol. Ceir y canlyniadau gorau pan fydd y pridd yn wlyb er mwyn helpu i dynnu'r gwreiddiau. Yn dibynnu i raddau helaeth ar nodi'r planhigion, mae'n bosibl y gellid methu rhai ohonynt a fyddai'n golygu y byddai angen triniaeth bellach. Pan fydd gan anifeiliaid fynediad i'r tir, neu pan gaiff ei ddefnyddio ar gyfer porthiant cadw, dylid symud planhigion llysiau'r gingroen o'r safle ar unwaith a'u gwaredu'n ddiogel. Mae offer ar gael i dynnu planhigion o'r ddaear. |
| Tynnu â pheiriant | * | ** | *** | ** | 0(1) | 2 | B | *** | *** | Yn dewis planhigion i'w tynnu yn ôl y gwahaniaeth o ran uchder ac yn methu planhigion byrrach. Pan fydd gan anifeiliaid fynediad i'r tir, neu pan gaiff ei ddefnyddio ar gyfer porthiant cadw, dylid symud planhigion sydd wedi'u codi o'r safle ar unwaith a'u gwaredu'n ddiogel. |
| Chwynladdwr drwy chwistrellu detholus (3) | * | ** | *** | *** | 21(2) | 1-2 | R | *** | *** | Bydd y rhan fwyaf o gynhyrchion yn lladd planhigion llydanddail eraill a gaiff eu chwistrellu. Dylid atal anifeiliaid rhag mynd i'r safle hyd nes y bydd llysiau'r gingroen wedi marw ac wedi diflannu'n llwyr ac wedyn ystyried cyfnod pellach o bythefnos. |
| Chwynladdwr drwy sbot-drin (3) | *** | ** | *** | *** | 21(2) | 1-2 | R neu B | *** | * | Yn dibynnu i raddau helaeth ar nodi'r planhigion, mae'n bosibl y gellid methu rhai ohonynt a fyddai'n golygu y byddai angen triniaeth bellach. Dylid atal anifeiliaid rhag mynd i'r safle hyd nes y bydd llysiau'r gingroen wedi marw ac wedi diflannu'n llwyr ac wedyn ystyried cyfnod pellach o bythefnos. |
| Chwynladdwr gyda pheiriant weed wiper (3) | * | ** | ** | ** | 21(2) | 1-2 | B | *** | *** | Dim ond planhigion llysiau'r gingroen talach yr effeithir arnynt. Dylid atal anifeiliaid rhag mynd i'r safle hyd nes y bydd llysiau'r gingroen wedi marw ac wedi diflannu'n llwyr ac wedyn ystyried cyfnod pellach o bythefnos. |

**Allwedd:** * Isel ** Canolig *** Uchel: R – Pan fydd rhosglymau yn dechrau tyfu; B – ddechrau'r haf cyn i bennau'r blodau aeddfedu; 1) – Ar yr amod y caiff llysiau'r gingroen sydd wedi'u torri/planhigion sydd wedi'u codi eu symud o'r safle; (2) Dim ond canllaw yw'r amseriadau hyn, dylech bob amser ddilyn y cyfarwyddiadau ar y label ac, yn ogystal, atal anifeiliaid rhag mynd i'r safle hyd nes y bydd llysiau'r gingroen wedi marw ac wedi diflannu'n llwyr ac wedyn ystyried pythefnos ychwanegol fel rhagofal (gweler **paragraff 33** o'r Atodiad hwn);
(3) Dylid sicrhau bod y chwynladdwr wedi'i awdurdodi ar gyfer llysiau'r gingroen a dilyn y cyfarwyddiadau ar y label ym mhob achos.

## Ffigur 1: Coeden penderfyniadau i'ch helpu i ddewis y dull rheoli mwyaf priodol



# Atodiad 4: Ystyriaethau Amgylcheddol a Chategorïau Tir Penodol

## Cyflwyniad

1. Rhaid ystyried statws cadwraeth natur a phriodoleddau bioamrywiaeth y tir, a'r cyfraniad y mae llysiau'r gingroen yn ei wneud tuag atynt, wrth benderfynu a oes angen gweithredu ac a yw'n briodol gwneud hynny. Dylid ystyried hyn yn ychwanegol at y fethodoleg a awgrymir ar gyfer asesu'r risg y bydd y planhigyn yn lledaenu yn **Nhabl 1**.

2. Pan fydd gan dir ddynodiad arbennig a'i fod yn gymwys ar gyfer taliadau cymorth sy'n gosod amodau ar y ffordd y caiff y tir ei reoli, neu pan fydd gan dir fuddiant bywyd gwyllt bioamrywiaeth penodol, ni ddylid cymryd unrhyw gamau i atal llysiau'r gingroen rhag lledaenu heb gymeradwyaeth yr awdurdod perthnasol, oni wneir hynny gan gydymffurfio ag amodau unrhyw gytundeb perthnasol. Pan fydd ardal o dir yn perthyn i fwy nag un categori, bydd angen cydgysylltu eang, a bydd angen ystyried yr holl ffactorau perthnasol.

3. Mae'n drosedd o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 i unrhyw berson, nad yw'n berson awdurdodedig (www.legislation.gov.uk/ukpga/1981/69/section/27) dynnu unrhyw blanhigyn gwyllt yn fwriadol o'r gwraidd. Mae hyn yn cynnwys llysiau'r gingroen.

## Ffermio organig

4. Pan fydd tir yn cael ei ffermio drwy ddulliau organig, bydd cyfyngiadau ar yr opsiynau rheoli y gellir eu defnyddio. Os bydd unrhyw amheuaeth am y safonau sy'n berthnasol i'r maes hwn, dylai ffermwyr gysylltu â'u corff ardystio. Dylid cael rhagor o gyngor ar fesurau ymarferol gan ymgynghorwyr organig â phrofiad addas.

## Cynlluniau grant gwledig

5. Dylid edrych ar reolau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (www.llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy) a rheolau grantiau a thaliadau gwledig eraill cyn ymgymryd ag unrhyw waith rheoli. Mae gwybodaeth am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gael yn Grantiau a thaliadau gwledig I Is-bwnc I LLYW.CYMRU (www.llyw.cymru/grantiau-a-thaliadau-gwledig).

## Prosiectau dwysâu amaethyddol

6. Cyn cynnal unrhyw brosiectau dwysâu amaethyddol ar dir lled-naturiol, rhaid i chi holi Llywodraeth Cymru yn gyntaf gan fod angen ystyried gwaith o'r fath o dan 'Reoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017'. Mae tir lled-naturiol yn cynnwys tir sy'n cynnwys llai na 25% o rywogaethau glaswellt amaethyddol wedi'i wella a/neu feillion gwyn. Mae prosiectau dwysâu amaethyddol, ymhlith pethau eraill, yn cynnwys amaethu, drilio uniongyrchol, gwasgaru pridd, draenio, addasu dulliau draenio presennol, adfer, defnyddio mwy o wrteithiau a chynyddu cyfraddau pori da byw. Dylid anfon ymholiadau i EIA.Unit@llyw.cymru (gweler **Atodiad 7**).

## Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, SoDdGAau, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a safleoedd treftadaeth naturiol â dynodiadau statudol ac anstatudol

7. Mae sawl rhywogaeth creulys a rhywogaethau sy'n perthyn yn agos yn tyfu fel planhigion brodorol ar lawer o safleoedd treftadaeth naturiol â dynodiad statudol fel Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, SoDdGAau, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (**gan gynnwys safleoedd sy'n cefnogi rhywogaethau neu gynefinoedd wedi'u rhestru yn y Llyfr Data Coch, rhywogaethau neu gynefinoedd sy'n brin yn genedlaethol a rhywogaethau wedi'u rhestru o dan adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**). Mae rhai rhywogaethau creulys yn brin.

8. Gall llysiau'r gingroen fod yn gystadleuol ac weithiau gall fod angen eu rheoli er budd rhywogaeth a warchodir. Os bydd y tir yn safle cadwraeth natur dynodedig, rhaid cysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i gael rhagor o wybodaeth cyn bwrw ati (gweler **Atodiad 7**).

9. Argymhellir yn gyffredinol y dylid dilyn y dull gweithredu a nodir yn y paragraff uchod wrth ystyried safleoedd bywyd gwyllt â dynodiad anstatudol.

## Henebion cofrestredig

10. Mae'n bosibl y bydd angen Caniatâd Heneb Gofrestredig hefyd er mwyn rheoli llysiau'r gingroen, neu dynnu llysiau'r gingroen, ar dir wedi'i warchod fel Heneb Gofrestredig o dan Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, rhaid cysylltu â Cadw, a gofyn am gyngor am y dull rheoli mwyaf priodol (gweler **Atodiad 7**).

## Tir comin a phorfeydd comin

11. Perchennog cofrestredig y tir, y pwyllgor pori a/neu feddiannydd y tir sy'n gyfrifol am ei reoli. Gall tir comin a phorfeydd comin hefyd fod yn destun dynodiad amgylcheddol.

## Glaswelltir amwynder

12. Fel arfer, caiff glaswelltir amwynder, sy'n cynnwys meysydd chwaraeon, caeau chwarae, meysydd pentref ac ardaloedd glaswelltog o amgylch adeiladau a gerddi, ei reoli mewn ffordd fwy dwys ac fel arfer, byddai risg isel y byddai llysiau'r gingroen yn lledaenu ohono i dir pori a thir a ddefnyddir i gynhyrchu bwyd anifeiliaid/porthiant. Fodd bynnag, lle na chaiff tir o'r fath ei reoli mewn ffordd mor ddwys, gall beri risg, os caniateir i lysiau'r gingroen dyfu mewn ardaloedd na chânt eu torri'n aml a/neu sydd ar berimedr yr ardal amwynder. Dylai dulliau rheoli ystyried mynediad i'r cyhoedd a diogelwch, a rhaid cynnal asesiad risg digonol cyn rhoi dulliau rheoli ar waith.

## Priffyrdd

13. Cyfarwyddiaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru sy'n berchen ar draffyrdd a chefnffyrdd. Cânt eu rheoli ar ei rhan gan Asiantau'r Cefnffyrdd. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am bob ffordd arall gyhoeddus, fel arfer yr adran priffyrdd. Gweler **Atodiad 7** am fanylion cyswllt. Y perchennog neu'r meddiannydd sy'n gyfrifol am ffyrdd preifat.

14. Yn aml, mae llysiau'r gingroen yn tyfu wrth ymyl ffyrdd, boed yn draffyrdd, cefnffyrdd, ffyrdd eraill cyhoeddus, neu ffyrdd preifat. Mae risg y bydd y planhigyn yn lledaenu i dir pori a tir a ddefnyddir i gynhyrchu bwyd anifeiliaid/porthiant yn yr ardal leol. Mae natur coridor ffordd yn aml yn golygu y gall weithredu fel cyfrwng i lysiau'r gingroen ledaenu, p'un a wnaeth yr hedyn gwreiddiol ddeillio o'r ardal y tu mewn i ffin y ffordd neu'r tu allan iddi. Gweler **Atodiad 6** am ganllawiau diogelwch wrth weithio o fewn ffin priffordd.

15. Gallai awdurdodau priffyrdd ddefnyddio technegau adfywio naturiol mewn rhai ardaloedd fel rhan o'u hamcanion cynaliadwyedd ac er mwyn creu banc hadau amrywiol. Fel rhan o'r broses greu, dylid rhoi mesurau ar waith i sicrhau y caiff llysiau'r gingroen eu rheoli, lle y bo'n briodol gwneud hynny.

## Rheilffyrdd

16. Network Rail sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru. Mae Trafnidiaeth Cymru yn gyfrifol am seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd. Y meddiannydd sy'n gyfrifol am dir rheilffordd preifat. Mae llysiau'r gingroen yn tyfu wrth ymyl rheilffyrdd ac, oherwydd maint a gwasgariad eang y rhwydwaith rheilffyrdd, gall fod risg y bydd yn lledaenu i dir pori cyfagos a thir a ddefnyddir i gynhyrchu bwyd anifeiliaid/porthiant. Yn yr un modd, mae nifer y cymdogion yng nghyffiniau'r rhwydwaith yn golygu y gall llysiau'r gingroen ledaenu i eiddo sy'n gysylltiedig â'r rheilffyrdd.

17. Cynhelir gwaith i reoli llystyfiant ar dir rheilffyrdd, gan gynnwys rheoli llysiau'r gingroen, er mwyn sicrhau bod y risgiau i drenau, staff y rheilffyrdd a'r cyhoedd sy'n teithio mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol.

18. Yn aml, caiff y gwaith i reoli llystyfiant ei gydgysylltu â gweithgareddau eraill er mwyn osgoi costau gormodol ac anghyfleustra i deithwyr. Oherwydd y risg uchel bosibl i aelodau o staff sy'n gweithio wrth ymyl rheilffyrdd, mae gan Network Rail weithdrefnau Iechyd a Diogelwch caeth iawn ar waith (gweler **Atodiad 6** am ganllawiau diogelwch ac **Atodiad 7** am fanylion cyswllt). Os bydd pryderon am lysiau'r gingroen ar dir rheilffyrdd, dylid trafod y mater â Network Rail i ddechrau. Dylid penderfynu ar gyfnod rhesymol ar gyfer ymgymryd â gwaith clirio, cyn gwneud cwyn i Arolygiaeth Wledig Cymru.

## Ardaloedd dyfrol

19. Gall tir sy'n union wrth ymyl dŵr (gan gynnwys afonydd, nentydd, ffrydiau, camlesi, pyllau ochr/camlesi ochr, pyllau a chronfeydd dŵr) fod yn ffynhonnell creulys, yn enwedig creulys y gors (*Jacobaea aquatica* cyfystyr *Senecio aquaticus*) sy'n ffynnu mewn amodau llaith. Nid yw darpariaethau Deddf Chwyn 1959 yn gymwys i greulys y gors.

20. Mae Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Defnydd Cynaliadwy) 2012 yn gosod rhwymedigaeth arbennig ar bawb sy'n defnyddio plaladdwyr i atal achosion o lygru dŵr. Mae angen sicrhau cytundeb Cyfoeth Naturiol Cymru cyn defnyddio plaladdwyr wrth ymyl corff dŵr (o fewn 5m iddo) neu o fewn corff dŵr neu cyn defnyddio plaladdwyr o fewn safle dynodedig (h.y. Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) neu safle Ramsar).

## Coetir a choedwigaeth

21. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n rheoli ystad coetiroedd Llywodraeth Cymru. Y perchennog neu'r meddiannydd sy'n gyfrifol am goetir preifat/coedwigaeth breifat. Yn gyffredinol, risg isel y mae llysiau'r gingroen mewn coetir a choedwigaeth yn ei pheri i anifeiliaid sy'n pori ac i brosesau cynhyrchu bwyd anifeiliaid a phorthiant.

## Ardaloedd datblygu, tir gwastraff, tir diffaith, a thir a ddefnyddir i echdynnu mwynau

22. Mae'r categori hwn yn cynnwys safleoedd tir llwyd sy'n aros i gael eu datblygu, safleoedd adeiladu, tir segur, a thir nad yw'n cael ei ddefnyddio na'i reoli yng nghyffiniau ardaloedd datblygu. Mae creulys Gymreig (Senecio cambrensis) yn rhywogaeth brin sy'n tyfu ar dir gwastraff ac wrth ymyl ffyrdd. Dim ond yng Ngogledd Cymru y mae'n tyfu ar hyn o bryd a gellir gweld ei dosbarthiad ar fap dosbarthiad Senecio cambrensis BSBI (www.plantatlas2020.org/atlas/2cd4p9h.g14). Yn gyffredinol, risg isel y mae tir yn yr amgylchedd trefol yn ei beri i geffylau a da byw, ac i brosesau cynhyrchu bwyd anifeiliaid a phorthiant. O dan rai amgylchiadau, gall y math hwn o dir fod o fudd i fioamrywiaeth, a dylid ystyried hyn.

## Tir amddiffyn

23. Y Sefydliad Seilwaith Amddiffyn (un o ganghennau gweithredu'r Weinyddiaeth Amddiffyn) sy'n gweinyddu'r ystad amddiffyn ac mae'n gyfrifol am sicrhau y caiff y safonau rheoli chwyn priodol eu cynnal ar dir amddiffyn sy'n rhan o'i awdurdodaeth. Mae gan rannau o dir y Weinyddiaeth Amddiffyn statws cadwraeth ac mae angen eu pori. Ni fydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn rheoli llysiau'r gingroen os bydd cyflenwadau heb ffrwydro ar y tir hwnnw.

## Llwybrau ceffylau

24. Ni ddylai fod angen rheoli llysiau'r gingroen oherwydd, yn syml, bydd ceffylau yn cael eu marchogaeth ar hyd y llwybr ceffylau. Cyfrifoldeb y marchog neu'r arweinydd yw sicrhau na fydd ceffyl yn llyncu llysiau'r gingroen pan fydd yn cael ei farchogaeth neu ei arwain ar hyd llwybr ceffylau.

# Atodiad 5: Gwaredu

## Cyflwyniad

1. Mae gwaredu llysiau'r gingroen mewn ffordd diogel ac effeithiol yn rhan bwysig o'r broses o reoli llysiau'r gingroen.

2. Mae risg uwch y bydd ceffylau a da byw yn cael eu gwenwyno gan lysiau'r gingroen sydd wedi marw neu wedi gwywo gan eu bod yn fwy tebygol o gael eu bwyta na llysiau'r gingroen yn eu cyflwr gwyrdd, ond maent yn wenwynig o hyd. Pan fydd gan anifeiliaid fynediad i'r tir, neu pan gaiff y tir ei ddefnyddio ar gyfer porthiant cadw, dylai planhigion llysiau'r gingroen sydd wedi cael eu torri neu eu tynnu gael eu **symyd o'r safle ar unwaith** a'u **gwaredu'n ddiogel.** Dylid atal mynediad i geffylau a da byw i'r tir hwnnw ac ni ddylid bod unrhyw risg y caiff porthiant neu fwyd anifeiliaid wedi'i storio, na thir a ddefnyddir i gynhyrchu bwyd anifeiliaid a phorthiant, ei halogi.

3. Mae gwaredu llysiau'r gingroen mewn ffordd gyfrifol yn lleihau'r risg y byddant yn lledaenu ymhellach wrth i'r hadau wasgaru ac i rannau o'r gwreiddiau ddechrau tyfu eto. Mae symud y planhigion ymaith yn effeithiol hefyd yn osgoi'r risg y bydd APau yn gollwng o lysiau'r gingroen sy'n pydru i mewn i'r pridd ac yn cael eu hamsugno, ac felly eu trosglwyddo, gan dderbynwyr-blanhigion cyfagos nad ydynt yn cynhyrchu APau eu hunain. **Bydd rheoli llysiau'r gingroen yn gynnar ac mewn ffordd effeithiol lle y bo'n briodol yn lleihau'r problemau sy'n gysylltiedig â'u gwaredu**.

## Opsiynau gwaredu

4. Bydd yr opsiynau gwaredu yn dibynnu ar faint o lysiau'r gingroen sydd i'w gwaredu, y math o safle, a'r adnoddau lleol sydd ar gael. Lle bynnag y bo'n ymarferol, dylid gwaredu llysiau'r gingroen ar y safle. Bydd hyn yn lleihau achosion anfwriadol o ledaenu hadau wrth eu cludo. Mae'r opsiynau gwaredu yn cynnwys pydru, compostio, defnyddio llosgydd, llosgi dan reolaeth a thirlenwi. Mae'r goeden penderfyniadau sydd i'w gweld yn **Ffigur 2** yn helpu i ddewis y dull gwaredu mwyaf priodol.

## Y fframwaith cyfreithiol

5. Caiff gwastraff sy'n deillio o safle a ddefnyddir yn llwyr neu'n bennaf at ddibenion masnach neu fusnes ei ystyried yn wastraff masnachol o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (www.legislation.gov.uk/ukpga/1990/43/section/75). Mae hyn yn cynnwys gwastraff sy'n deillio o safle amaethyddol (gan gynnwys llysiau'r gingroen). Nid yw'n cynnwys gwastraff cartref sy'n deillio o eiddo o'r fath.

## Casgliadau sbwriel cartrefi

6. Lle bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu 'Casgliadau Gwastraff Gwyrdd', ni ddylid cymysgu llysiau'r gingroen â'r 'Gwastraff Gwyrdd', oni bai bod yr Awdurdod Lleol yn caniatáu iddynt gael eu cynnwys. Y rheswm am hyn yw na fydd gan rai cyfleusterau compostio o bosibl yr adnoddau a'r gweithdrefnau angenrheidiol ar waith i ymdrin â llysiau'r gingroen. Dylech ofyn i'ch Awdurdod Lleol a yw'n caniatáu i lysiau'r gingroen gael eu casglu fel rhan o'r trefniadau ar gyfer casgliadau domestig.

## Cludo llysiau'r gingroen

7. Gall llysiau'r gingroen ryddhau hadau hyd yn oed ar ôl iddynt gael eu tynnu, eu palu neu eu torri ac felly mae risg uwch y bydd yr hadau yn gwasgaru i dir cyfagos wrth gael eu cludo. Er mwyn osgoi achosion o hadau yn gwasgaru, **dim ond** mewn bagiau wedi'u selio neu gynwysyddion caeedig y dylid cludo llysiau'r gingroen. Os bydd y planhigion yn swmpus, gellir eu torri'n ddarnau i'w gwneud hi'n haws eu pacio. Er mwyn osgoi achosion diangen o hadau yn gwasgaru, dylid torri pennau'r hadau yn gyntaf a'u pacio.

8. Gellir symud sgîl-gynhyrchion llysiau'r gingroen o leoliad domestig (h.y. lle nad ydynt yn deillio o unrhyw weithgarwch busnes) i orsaf trosglwyddo gwastraff leol ar yr amod bod y cyfleuster yn weithredwr gwastraff ag awdurdodiad addas sy'n gallu derbyn llysiau'r gingroen. Dylid cadarnhau fod y cyfleuster yn addas cyn eu cludo. Fodd bynnag, mae defnyddio cludydd gwastraff cofrestredig yn opsiwn delfrydol pan fydd angen gwaredu swm mawr o lysiau'r gingroen neu pan na fydd unrhyw opsiynau eraill ar gael. www.naturalresources.wales/permits-and-permissions/check-for-a-permit-licence-or-exemption/?lang=cy

9. Bydd angen i wastraff o leoliad masnachol (gan gynnwys ffermydd) gael ei symud i leoliad arall gan gludydd gwastraff cofrestredig o dan ddyletswydd gofal gwastraff (www.naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/waste-management/waste-duty-of-care/?lang=cy) gan gynnwys defnyddio nodiadau trosglwyddo gwastraff. Os bydd gwastraff yn cael ei drosglwyddo i ddeiliad arall, bydd angen ei gludo i weithredwr gwastraff ag awdurdodiad addas sy'n gallu derbyn y math hwnnw o wastraff ac ymdrin ag ef. Os caiff deunydd gwastraff ei gludo i safleoedd yn Lloegr, caiff trwyddedau yno eu cyhoeddi gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

## Compostio ar raddfa fach gan ddefnyddio bin compost

10. Er mwyn gwaredu symiau bach o lysiau'r gingroen ar y safle. Ni ddylai'r bin compost fod yn agos at unrhyw ffos, draen na chwrs dŵr, nac ardal y gallai anifeiliaid fynd iddi. Dylid hefyd ei leoli heb fod yn agos at dir pori na thir a ddefnyddir i gynhyrchu bwyd anifeiliaid neu borthiant. Dylai'r tir lle caiff y bin compost ei leoli gael ei lefelu; dylid rhyddhau'r ddaear er mwyn i bryfed genwair, pryfed a micro-organebau allu symud i mewn i'r deunydd, ac i unrhyw hylif allu draenio a gwasgaru drwy'r pridd.

11. Dim ond ar gyfer gwaredu ar raddfa fach y bydd hyn yn addas oherwydd cynhwysedd cyfyngedig biniau compost safonol. Dylid sicrhau bod biniau compost penodol ar gael ar gyfer llysiau'r gingroen.

12. Os caiff y deunydd ei gasglu mewn sachau plastig, rhaid eu gwagio yn syth i mewn i'r bin compost. Os defnyddir sachau papur, gellid eu llwytho i mewn i'r bin compost a dylid eu sleisio a'u cyfuno er mwyn cynyddu'r gyfradd bioddiraddio. Dylid gorchuddio'r gwaddodion â haen o dorion glaswellt er mwyn helpu i ddechrau'r broses bioddiraddio a helpu i atal y deunydd rhag sychu. Os bydd y broses yn sychu, mae risg na chaiff rhywfaint o'r hadau neu ddeunydd y gwreiddiau eu dinistrio ac y gallant orwedd yn segur. Dylid ychwanegu digon o dŵr i gadw'r gwaddodion yn llaith. Fodd bynnag, mae risg o hyd y caiff deunyddiau hyfyw eu lledaenu pan gaiff y bin compost ei wagio. Gellir lleihau'r risgiau drwy ganiatáu i'r broses bydru barhau am hyd at 12 mis yn y bin compost. Ni ddylid ychwanegu unrhyw ddeunydd ffres yn ystod y cyfnod hwn.

## Compostio ar raddfa fwy

13. Er mwyn gwaredu llysiau'r gingroen lle mae cyfleusterau ac arbenigedd ar y safle neu oddi ar y safle ar gael i gompostio llysiau'r gingroen, neu wastraff gwyrdd sy'n cynnwys llysiau'r gingroen, hyd at Safon Brydeinig PAS 100:2018[2]. Bydd hyn yn sicrhau y caiff yr holl ddeunyddiau eu compostio'n effeithiol. Mae compostio deunydd gwastraff gan gynnwys llysiau'r gingroen yn weithgarwch trin gwastraff ac felly bydd angen trwydded neu esemptiad addas o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016 yn y man lle caiff y gwaith ei gynnal.

14. Mae angen i bob safle compostio yng Nghymru gofrestru ar gyfer esemptiad. Mae gwybodaeth am safleoedd â thrwydded a safleoedd ag esemptiad (www.naturalresources.wales/permits-and-permissions/check-for-a-permit-licence-or-exemption/?lang=cy) ar gael ar wefan CNC.

15. Gallwch gael y British Standard PAS 100: 2018 specification for composted materials (www.standardsdevelopment.bsigroup.com/projects/9017-01020) gan y Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI).

## Llosgi dan reolaeth a defnyddio llosgydd ar raddfa fach

16. Dim ond i waredu symiau bach y dylid defnyddio'r opsiwn hwn, lle mae modd gwywo llysiau'r gingroen yn ddiogel cyn eu llosgi. Efallai y caniateir achosion o storio diogel a llosgi dan reolaeth ar gyfer llai na 10 tunnell o blanhigion y dydd o dan **esemptiad gwastraff D7**.


17. Mae esemptiadau ar gael gan CNC o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (www.naturalresources.wales/permits-and-permissions/waste-permitting/register-or-renew-your-waste-exemptions/?lang=cy). **Nid oes angen esemptiad ar gyfer deiliaid tai sy'n gweithredu mewn lleoliadau domestig er y gall fod rheolau eraill yn gymwys o ran llygredd a niwsans cyhoeddus. Mae'n berthnasol i ffermwyr a pherchenogion/rheolwyr tir eraill sy'n gweithredu mewn rhinwedd broffesiynol**. Caniateir esemptiad o dan y Rheoliadau uchod ar yr amod mai perchennog neu gontractwr y safle lle cafodd y gwastraff ei gynhyrchu sy'n gwaredu'r gwastraff hwnnw a'i fod yn dod o safle amaethyddol neu dir perthnasol arall gan gynnwys tir rheilffordd, coedwig, coetir a thir hamdden.

2 PAS 100:2018 Manyleb ar gyfer deunyddiau wedi'u compostio (BSI).

18. Mae defnyddio llosgydd ar raddfa fach sy'n defnyddio dyfais gydnabyddedig yn well na dull llosgi agored gan ei fod yn cynnig mwy o reolaeth a'i fod yn llai tebygol o achosi mwg tywyll neu niwsans cyhoeddus. Mae'n addas pan gaiff llysiau'r gingroen eu casglu mewn sachau papur ac y gellir eu sychu ddigon i losgi. Mae hefyd yn addas ar gyfer llysiau'r gingroen sydd wedi colli eu blodau ac wedi gwywo. Rhaid ystyried amodau'r tywydd (yn enwedig cyfeiriad y gwynt) gan roi ystyriaeth briodol i'r gorchudd tir, llystyfiant llosgadwy, adeiladau, a thai cyfagos. Mae achosi niwsans oherwydd mwg a dyddodion o goelcerthi yn drosedd.

19. Ni ddylai'r llosgwr fod yn agos at unrhyw ffos, cwrs dŵr, nac ardal lle caiff anifeiliaid eu cadw. Rhaid iddo fod yn ddigon pell oddi wrth unrhyw danciau tanwydd, silindrau storio nwy, adeiladau, eiddo domestig, neu ffordd. Rhaid rhoi ystyriaeth briodol i sut y gellir osgoi niwsans a risg i eraill.

## Ffigur 2: Coeden penderfyniadau i'ch helpu i ddewis yr opsiwn gwaredu mwyaf priodol



# Atodiad 6: Canllawiau Diogelwch

## Ymdrin â llysiau'r gingroen

1. Dylid cymryd rhagofalon synhwyrol wrth ymdrin â phlanhigion llysiau'r gingroen byw a marw. Gallai hyn gynnwys menig gwrth-ddŵr cryf, gorchuddio croen sydd wedi torri neu groen llidiog, a gorchuddio'r coesau a'r breichiau. Dylech hefyd ystyried a oes angen masg wyneb er mwyn osgoi mewnanadlu paill neu ronynnau eraill sy'n cael eu cludo yn yr aer.
2. Os bydd llysiau'r gingroen yn dod i gysylltiad â chroen noeth, dylid golchi'r croen yn ofalus â dŵr cynnes a sebon, ei rinsio a'i sychu.

## Diogelwch Cyffredinol Gweithredwyr

3. Rhaid bod yn ofalus hefyd i sicrhau diogelwch gweithredwyr pan fyddant yn clirio llysiau'r gingroen. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth glirio'r planhigyn ar ymyl ffyrdd ac mewn ardaloedd cyhoeddus eraill lle ceir cerbydau modur.
4. Os bydd gwirfoddolwyr yn helpu i symud llysiau'r gingroen o'r safle, rhaid iddynt fod yn gymwys i ymgymryd â'r dasg a rhaid eu bod wedi cael hyfforddiant digonol (gan gynnwys diogelwch ar y ffyrdd). Dylid eu goruchwylio er mwyn sicrhau nad ydynt yn achosi perygl iddyn nhw eu hunain nac i eraill. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth glirio llysiau'r gingroen o ymylon ffyrdd sydd ar agor i'r cyhoedd. Ni chaniateir i wirfoddolwyr weithio ar dir o fewn ffiniau'r cefnffyrdd nac ar dir a gaiff ei reoli gan Network Rail neu unrhyw weithredwyr rheilffyrdd eraill.
5. Cyn dechrau gwaith clirio, dylid cynnal asesiad risg digonol ac addas sy'n gwneud y canlynol:

- nodi'r peryglon;
- penderfynu pwy allai gael niwed o ganlyniad i'r peryglon hynny;
- gwerthuso'r risg a phenderfynu a yw'r rhagofalon presennol yn ddigonol neu a ddylid gwneud mwy;
- cofnodi'r canfyddiadau;
- adolygu'r asesiad a'i ddiwygio os bydd angen.

Mae rhagor o ganllawiau ar gynnal Asesiadau Risg ar gael gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (www.www.hse.gov.uk/search/search-results.htm?query=hse+risk+assessments#gsc.tab=0&gsc.q=hse%20risk%20assessments&gsc.page=1). Gweler Atodiad 7 am fanylion cyswllt HSE.

6. Dim ond unigolion sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ac sy'n meddu ar y cymwysterau priodol ddylai ymgymryd â gwaith i reoli llysiau'r gingroen o fewn ffiniau ffyrdd cyhoeddus. Rhaid bod y wybodaeth berthnasol am ddiogelwch a'r amgylchedd ar gael i unigolion o'r fath er mwyn sicrhau na fydd eu gwaith arbenigol yn rhoi diogelwch defnyddwyr ffyrdd yn y fantol neu'n mynd yn groes i ddeddfwriaeth amgylcheddol.
7. Wrth balu neu dynnu llysiau'r gingroen wrth ymyl ffordd, llwybr, neu lwybr beicio cyhoeddus, mae'n hanfodol sicrhau y gall defnyddwyr eraill weld gweithredwyr. Rhaid i bob gweithredwr wisgo dillad gweledd uchel ac, yn gyffredinol, rhaid i bob gweithredwr weithio gan wynebu'r traffig cyhyd ag y bo hynny'n ymarferol. Dylid darparu lefel briodol o hyfforddiant diogelwch ar y ffyrdd i bob gweithredwr er mwyn gwella'r ymwybyddiaeth o beryglon diogelwch ar y ffyrdd. Ni ddylid gwneud unrhyw ymdrech i balu neu dynnu llysiau'r gingroen wrth ymyl ffyrdd os bydd amodau gwelededd gwael neu pan fydd hi'n dywyll. Rhaid parcio unrhyw gerbydau a ddefnyddir i gludo gweithredwyr i'r lleoliad lle caiff llysiau'r gingroen eu rheoli yn ddiogel ac ni ddylid eu parcio mewn ffordd sy'n peri rhwystr ar y ffordd nac ar unrhyw hawl tramwy cyhoeddus arall.
8. Dylid gosod arwyddion gwaith ar y ffordd yn unol â'r arferion safonol sy'n llywodraethu'r math o ffordd. Ar gefnffyrdd, gan gynnwys traffyrdd, mae gwahanol reolau yn gymwys a bydd angen i'r Asiant Cefnffyrdd perthnasol gymeradwyo unrhyw arwyddion traffig cyn eu gosod neu cyn i'r gwaith ddechrau.
9. Ar ffyrdd deuol a thraffyrdd cyflymder uchel lle mae'r terfyn cyflymder yn uwch na 50 mya, mae'n bosibl y bydd angen gofynion rheoli traffig arbennig fel y'u pennir gan yr Asiant Cefnffyrdd.

10. Ar dir rheilffyrdd, ni ddylai unrhyw berson heb awdurdod o dan unrhyw amgylchiadau fynd ar y tir hwnnw na honni y gall awdurdodi unrhyw berson arall i fynd ar y tir hwnnw. Dim ond yr ymgymerwr rheilffordd dan sylw all awdurdodi unigolion sy'n meddu ar dystysgrif diogelwch rheilffyrdd briodol sy'n bodloni gofynion Achosion Diogelwch Rheilffyrdd ymgymerwyr a gymeradwywyd gan Reoliadau Rheilffyrdd (Achos Diogelwch) 2000 (fel y'u diwygiwyd) i fynd ar dir o'r fath. Mae methu â chydymffurfio â'r cyfarwyddyd hwn yn debygol o olygu bod yr unigolion dan sylw yn torri eu dyletswyddau o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974. Gallai'r unigolyn/unigolion sy'n awdurdodi unigolion i fynd ar y tir o dan amgylchiadau o'r fath hefyd fod yn atebol i gael eu herlyn yn eu rhinwedd bersonol.

11. Oherwydd y risg uchel bosibl i aelodau o staff sy'n gweithio wrth ymyl rheilffyrdd, mae gan Network Rail weithdrefnau iechyd a diogelwch caeth iawn ar waith. Rhaid i bob gweithredwr gydymffurfio â'r gweithdrefnau hyn, er mwyn sicrhau ei ddiogelwch ei hun yn ogystal â rhedeg y rheilffordd yn ddiogel. Gall hyn olygu y bydd yn rhaid cau'r rheilffordd am gyfnod dros dro neu gyflwyno dulliau gweithio fesul cam ar y cyd â llai o wasanaethau. Rhaid i'r aelodau o staff dan sylw hefyd sicrhau nad ydynt yn mynd yn groes i unrhyw ddeddfwriaeth amgylcheddol wrth ymgymryd â gwaith clirio chwyn.

## Awdurdod ymlaen llaw i fynd ar y tir

12. Mae'n hanfodol cael awdurdod ymlaen llaw cyn ymgymryd â gwaith i glirio llysiau'r gingroen. Byddai mynd ar y tir heb awdurdod ymlaen llaw yn gyfystyr â thresmasu a gallai arwain at gyhuddiad difrod troseddol. Mae hefyd yn drosedd i unrhyw un heblaw person awdurdodedig dynnu unrhyw blanhigyn gwyllt yn fwriadol o'r gwreiddyn, gan gynnwys llysiau'r gingroen.

## Defnyddio chwynladdwyr

13. Gall pob chwynladdwr fod yn beryglus os na chaiff ei ddefnyddio'n unol â'r amodau cymeradwyo ar ei gyfer, a lle y bo'n briodol, asesiadau o'r risg amgylcheddol ac asesiadau COSHH (gweler **Atodiad 3**). Dim ond pan fo'n gwbl angenrheidiol y dylid defnyddio cynhyrchion o'r fath. Nid yw'n ddarbodus eu defnyddio pan nad oes eu hangen, gall hynny arwain at ymwrthedd i blaladdwyr ac, mewn rhai achosion, gall hefyd ddinistrio'r llystyfiant nad yw'n cael ei dargedu a bygwth yr amgylchedd lleol. Rhaid cynnal asesiad risg cyn eu defnyddio. Dylai'r asesiad risg nodi'r risgiau i weithredwyr a phobl yn yr ardal (gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd) a dylai ddynodi'r mesurau sydd eu hangen i reoli'r risgiau hynny'n ddigonol. Dylid rhoi unrhyw fesurau yr ystyrir eu bod yn briodol ac yn angenrheidiol yn ôl yr asesiad risg, e.e., newid y cynnyrch (i gynnyrch llai peryglus), rheolaethau peirianyddol ac ati, ar waith, a dylid gwisgo'r cyfarpar diogelu sy'n ofynnol ac a nodir ar label y cynnyrch. Ceir gwybodaeth am gymorth cyntaf a thriniaeth feddygol os daw rhywun i gysylltiad â'r cemegyn ar ddamwain ar y label hefyd.

# Atodiad 7: Cysylltiadau

## Adrannau ac Asiantaethau'r Llywodraeth

**Arolygiaeth Wledig Cymru**
Llywodraeth Cymru, Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru (o ddydd Llun i ddydd Gwener)
**Ffôn:** 0300 062 5004
**E-bost:** riwmailbox@llyw.cymru

**Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)**
**Gwefan:** www.hse.gov.uk/contact/index.htm

**Cadw**
Llywodraeth Cymru, Plas Carew, Uned 5/7 Cefn Coed, Parc Nantgarw, Caerdydd CF15 7QQ
**Ffôn:** 0300 0256000
**E-bost:** cadw@tfw.wales (ymholiadau cyffredinol)
**E-bost:** scheduledmonuments@llyw.cymru (Henebion Cofrestredig – ymchwiliadau a chaniatadau)
**Gwefan:** ww.cadw.llyw.cymru/cysylltu-a-ni

**Cyfoeth Naturiol Cymru**
**Ffôn:** 0300 065 3000
**E-bost:** ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
**Gwefan:** www.naturalresourceswales.gov.uk/about-us/contact-us/general-enquiries/?lang=cy

**Y Gofrestrfa Tir**
I ddod o hyd i wybodaeth am eiddo yng Nghymru neu Loegr, chwiliwch am wybodaeth am dir ac eiddo (www.gov.uk/chwilio-gwybodaeth-eiddo-cofrestrfa-tir). Mae'r math o wybodaeth y gallwch ei chael yn cynnwys pwy sy'n berchen ar yr eiddo neu'r tir, a lleoliad a ffiniau'r eiddo neu'r tir. Codir tâl am ddogfennau.

**Llinell Gymorth Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA)**
Llinell Gymorth Defra sy'n ymdrin ag ymholiadau gan y cyhoedd mewn perthynas â PPPs (plaladdwyr) a glanedyddion.
**Ffôn:** 03459 33 55 77
(Rhyngwladol: +44 20 7238 6951)
Oriau'r Llinell Gymorth: O ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8:30am a 5pm
**E-bost:** defra.helpline@defra.gov.uk

**Y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd (ORR)**
25 Cabot Square, London E14 4QZ
**Ffôn:** 020 7282 2000
**E-bost:** contact.cct@orr.gov.uk
**Gwefan:** www.orr.gov.uk/contact-us
www.orr.gov.uk/about

**Y Tîm Iechyd Planhigion a Diogelu'r Amgylchedd**
Is-adran Tir, Natur a Choedwigaeth,
Llywodraeth Cymru,
Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 3UR
**E-bost:** Plant.Health@llyw.cymru
**Gwefan:** www.llyw.cymru/llysiaur-gingroen-cod-ymarfer

**Yr Uned Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol (AEA – Amaethyddiaeth)**
Llywodraeth Cymru, Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru (o ddydd Llun i ddydd Gwener)
**Ffôn:** 0300 062 5004
**E-bost:** EIA.Unit@llyw.cymru
**Gwefan:** www.llyw.cymru/asesu-effaith-amgylcheddol-yn-y-maes-amaethyddol

## Asiantau'r Llywodraeth

**Asiant Cefnffyrdd De Cymru**
12a Llandarcy House, The Courtyard, Llandarcy, Castell-nedd SA10 6EJ
**E-bost:** contact@traffic.wales
**Gwefan:** www.traffig.cymru/asiant-cefnffyrdd-de-cymru / www.traffig.cymru/cysylltu-ni

**Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru**
Llys Britannia, Parc Menai, Bangor.
Yn gwasanaethu Gogledd Cymru,
Ceredigion a Phowys.
**E-bost:** contact@traffic.wales
**Gwefan:** www.traffig.cymru/asiant-cefnffyrdd-gogledd-chanolbarth-cymru / www.traffig.cymru/cysylltu-ni

**Network Rail**
Waterloo General Office, London, SE1 8SW
**Ffôn:** Llinell Gymorth Genedlaethol 03457 11 41 41
**Gwefan:** www.networkrail.co.uk/contact-us/
www.networkrail.co.uk/our-work/living-by-the-railway/vegetation/

**Trafnidiaeth Cymru (TrC)**
3 Llys Cadwyn, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf, CF37 4TH
**Ffôn:** 03333211202
**Gwefan:** www.trc.cymru/cymorth-a-chysylltu/rheilffordd/cysylltu-a-ni
www.trc.cymru/prosiectau/metro/adeiladu-ein-metro/torri-llystyfiant

## Awdurdodau Lleol

I ddod o hyd i'ch awdurdod lleol, ewch i
www.llyw.cymru/dod-o-hyd-ich-awdurdod-lleol

## Parciau Cenedlaethol

**Arfordir Penfro**
Parc Llanion
Doc Penfro
Sir Benfro, SA72 6DY
**Ffôn:** 01646 624800
**E-bost:** info@pembrokeshirecoast.org.uk
**Gwefan:** www.arfordirpenfro.cymru/cysylltu-a-ni/

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth, Gwynedd, LL48 6LF
**Ffôn:** 01766 770274
**E-bost:** parc@eryri.llyw.cymru
**Gwefan:** www.awdurdod.eryri.llyw.cymru/cysylltu

**Bannau Brycheiniog**
Plas y Ffynnon, Ffordd Cambria, Aberhonddu, Powys, LD3 7HP
**Ffôn:** 01874 624 437
**Gwefan:** www.bannau.cymru/cysylltwch-a-ni/

## Cysylltiadau Eraill

**Glandŵr Cymru/Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd**
Head Office, Canal & River Trust, National Waterways Museum Ellesmere Port, Cheshire, CH65 4FW
**Ffôn:** 0303 040 4040
**Gwefan:** www.canalrivertrust.org.uk/contact-us/form / https://canalrivertrust.org.uk/contact-us

**Y Tîm Partneriaethau Natur Lleol**
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Un Parêd y Gamlas, Heol Dumballs, Caerdydd CF10 5BF
**E-bost:** lnpcymru@wcva.cymru
**Ffôn:** 0300 111 0124
**Gwefan:** www.lnp.cymru/Cysylltu / www.lnp.cymru/Amdanom-Ni

# Atodiad 8: Cyhoeddiadau Defnyddiol

## Cyhoeddiadau'r Llywodraeth

*Deddf Chwyn 1959*
www.legislation.gov.uk/ukpga/Eliz2/7-8/54/contents

*Deddf Rheoli Llysiau'r Gingroen 2003*
www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/40/introduction

*Guidance on the methods that can be used to control harmful weeds*
www.gov.uk/government/publications/guidance-on-the-methods-that-can-be-used-to-control-harmful-weeds

*Code of Practice on how to prevent the spread of ragwort (Defra)*
www.gov.uk/government/publications/code-of-practice-on-how-to-prevent-the-spread-of-ragwort

*How to prevent the spread of ragwort: guidance*
www.gov.scot/publications/scottish-government-guidance-prevent-spread-ragwort/

*NERR158 Argraffiad 2 The Weed Control Handbook: Guidance on the use of herbicides on nature conservation sites (NERR158)*
www.naturalengland.blog.gov.uk/2025/10/06/new-weed-control-handbook-published-a-smarter-greener-approach-to-vegetation-management/

*The Code of Practice for Using Plant Protection Products*
www.hse.gov.uk/pesticides/using-pesticides/codes-of-practice/index.htm#

*Code of Practice for Suppliers of Pesticides to Agriculture, Horticulture and Forestry (PB3529) (y cyfeirir ato hefyd fel y Cod Melyn)*
www.hse.gov.uk/pesticides/assets/docs/yellow_code.pdfwww.hse.gov.uk/pesticides/using-pesticides/codes-of-practice/index.htm

*Cod Ymarfer ar gyfer lles ceffylau*
www.llyw.cymru/cod-ymarfer-ar-gyfer-lles-ceffylau

*Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021: canllawiau ar gyfer ffermwyr a thirfeddianwyr*
www.llyw.cymru/rheoliadau-adnoddau-dwr-rheoli-llygredd-amaethyddol-cymru-2021-canllawiau-ar-gyfer-ffermwyr

*Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). Gwybodaeth am Gynhyrchion Diogelu Planhigion sydd wedi'u hawdurdodi i'w defnyddio ym Mhrydain Fawr* www.secure.pesticides.gov.uk/pestreg

*HSE Guidance on the requirements of the Plant Protection Products (Sustainable Use) Regulations 2012.* www.hse.gov.uk/pesticides/using-pesticides/codes-of-practice/guidance-sustainable-use-ppp-regs-2012.htm

*Review of evidence concerning ragwort impacts, ecology and control options. Adroddiad i Defra Hydref 2013* https://randd.defra.gov.uk/ProjectDetails?ProjectId=19540

## Cyhoeddiadau eraill

*The UK Pesticide Guide. Cyhoeddiad blynyddol o'r plaladdwyr a'r adjiwfantau sydd ar gael yn y DU i'w defnyddio ym maes amaethyddiaeth, garddwriaeth, coedwigaeth ac amwynderau* www.bcpc.org/

*Gwybodaeth am arferion, bioleg, parhad a lledaeniad llysiau'r gingroen* www.gardenorganic.org.uk/expert-advice/garden-management/weeds/weed-datasheets/common-ragwort

*The biology and non-chemical control of common Ragwort (Senecio jacobaea L.) W Bond, G Davies, R Turner.* www.gardenorganic-assets.s3.eu-west-2.amazonaws.com/documents/senecio-jacobaea.pdf

*Interspecific transfer of pyrrolizidine alkaloids: An unconsidered source of contaminations of phytopharmaceuticals and plant derived commodities* www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0308814616309621?ref=pdf_download&fr=RR-2&rr=974cb919bec5ada5

# Atodiad 9: Ffynonellau Cyngor Technegol ar Reoli Llysiau'r Gingroen

Nid yw'r ffaith bod unrhyw sefydliad wedi'i gynnwys ar y rhestr hon yn awgrymu bod y **Cod Ymarfer i Atal Llysiau'r Gingroen rhag Lledaenu** hwn yn cymeradwyo cyngor, arweiniad, gwybodaeth, cynhyrchion na gwasanaethau unrhyw sefydliad a restrir.

## ADAS Ltd

**Yn rhoi cyngor ymgynghori y codir tâl amdano**
Uned 10D
Parc Gwyddoniaeth Cefn Llan
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3AH
**Ffôn:** 01974 847000
**E-bost:** enquiries@adas.co.uk
**Gwefan:** www.adas.co.uk

**Basis Registration Ltd**
Yn rhedeg y cynllun achredu ar gyfer ymgynghorwyr ar y defnydd o blaladdwyr.
39 Windmill Lane
Ashbourne
Derbyshire
DE6 1EY
**Ffôn:** 01335 301 200
**E-bost:** help@basis-reg.co.uk
**Gwefan:** www.basis-reg.co.uk

## BCPC (Cyngor Diogelu Cnydau Prydain gynt)

**Gall y cwmnïau sy'n aelodau ddarparu llenyddiaeth dechnegol**
93 Lawrence Weaver Road
Cambridge
CB3 0LE
**Ffôn:** 01223 342495
**Cysylltu:** www.bcpc.org/contact
**Gwefan:** www.bcpc.org

## Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU

**Yn rhoi cyngor ymgynghori y codir tâl amdano**
Yr Ysgol Gwyddorau Biolegol
Heol Deiniol Bangor
Gwynedd LL57 2UW
**Ffôn:** 01248 374500
**Gwefan:** www.ceh.ac.uk

**Cydffederasiwn y Diwydiannau Amaethyddol (AIC)**
**Mae'r cwmnïau sy'n aelodau yn cyflenwi ac yn dosbarthu agrocemegau**
The Forum
Minerva Business Park
Peterborough PE2 6FT
**Ffôn:** 01733 385230
**E-bost:** enquiries@agindustries.org.uk
**Gwefan:** www.agindustries.org.uk

## Cymdeithas Ceffylau Prydain (BHS)

**Y sefydliad cenedlaethol i berchenogion ceffylau a marchogion**
Abbey Park
Stareton Kenilworth
Warwickshire
CV8 2XZ
**Ffôn:** 02476 840500
**E-bost:** enquiry@bhs.org.uk
**Gwefan:** www.bhs.org.uk/about-us/contact-us/

## Cymdeithas yr Ymgynghorwyr Cnydau Annibynnol (AICC)

**Yn rhoi cyngor ymgynghori y codir tâl amdano**
The Courtyard
Shoreham Road
Upper Beeding
Steyning BN44 3TN
**Ffôn:** 01730 823881
**E-bost:** info@aicc.org.uk
**Gwefan:** www.aicc.org.uk

## Cymdeithas Genedlaethol y Contractwyr Amaethyddol

**Gall y cwmnïau sy'n aelodau ddarparu gwasanaethau contractio ym maes amaethyddiaeth, amwynderau a diwydiant ar y tir**
Grange Farm
Wittering Grange
Old Oundle Road
Wansford Peterborough PE8 6NR
**Ffôn:** 01780 784631
**E-bost:** info@naac.co.uk
**Gwefan:** www.naac.co.uk

## Garden Organic

**Garddio organig, gan gynnwys rheoli chwyn**
Garden Organic
Ryton Gardens
Wolston Lane
Coventry
CV8 3LG
**Ffôn:** 024 7630 3517
**E-bost:** enquiry@gardenorganic.org.uk
**Gwefan:** www.gardenorganic.org.uk

## Y Grŵp Cynghori ar Ffermio a Bywyd Gwyllt (FWAG)

**Cyngor ar ffermio a chadwraeth**
FWAG Cymru
Ffordd Arran
Dolgellau
Gwynedd
LL40 1LW
**Ffôn:** 01341 421456
**E-bost:** fwag.cymru@fwagcymru.co.uk
**Gwefan:** www.fwag.org.uk

## Y Gymdeithas Diogelu Cnydau (CPA)

**Gall y cwmnïau sy'n aelodau ddarparu llenyddiaeth dechnegol**
Stuart House
St John's Street
Peterborough
PE1 5DD
**Ffôn:** 01733 355370
**E-bost:** info@cropprotection.org.uk
**Gwefan:** www.cropprotection.org.uk